- To gain an understanding of the structure and functions of the Public Services Boards.
- To explore the effectiveness of PSBs, resourcing and capacity.
- To gather evidence of issues or barriers that may impact on effective working, and examples of good practice and innovation.

## 1. Structure and functions of the Public Services Boards

1.1 In April 2016 the Wellbeing of Future Generations (Wales) Act 2015 established a statutory board, known as a Public Services Board (PSB), in each local authority area in Wales. Conwy and Denbighshire have used the power within the Act to merge both of their separate PSBs into a single PSB for the Conwy and Denbighshire region.

**Membership and meetings**

1.2 The Conwy and Denbighshire PSB is chaired by the Area Director (Central) of Betsi Cadwaladr University Health Board and the vice chair is the Chief Executive of Conwy County Borough Council.

1.3 Membership of the Conwy and Denbighshire PSB comprise of the statutory members and invited participants specified by the Act. The following are the agreed nominated representatives for the Board:

| Statutory Members | Nominated Representative |
|---|---|
| Betsi Cadwaladr University Health Board | Area Director of Central (representing the Chairman) |
| Betsi Cadwaladr University Health Board | Chief Executive |
| Conwy County Borough Council | Leader |
| Conwy County Borough Council | Chief Executive |
| Denbighshire County Council | Leader |
| Denbighshire County Council | Chief Executive |
| Natural Resources Wales | Head of Operations North (representing the Chief Executive) |
| North Wales Fire and Rescue Service | Chief Fire Officer |
| **Invited Participants** | **Nominated Representative** |
| Community & Voluntary Support Conwy | Chief Officer |
| Denbighshire Voluntary Services Council | Chief Executive Officer |
| National Probation Service | Head of Local Delivery Unit |
| North Wales Police | Superintendent |
| Police and Crime Commissioner Office | Chief Executive |

| | |
|---|---|
| Public Health Wales | Public Health Consultant (representing the Executive Director of Public Health) |
| Wales Community Rehabilitation Company | Head of Local Delivery Unit |
| Welsh Government | Senior Civil Servant |

1.4 Although the Conwy and Denbighshire PSB decided to keep membership to the core members stipulated in the Act during the development of their well-being plan, membership will be reviewed to ensure there is sufficient representation to deliver the priorities.

1.5 The PSB hold quarterly meetings and since November 2017, PSB meetings are now open to the public.

**Purpose and Priorities**

1.6 The purpose of the board is to improve the economic, social, environmental and cultural well-being of the Board's area by contributing to the achievement of the national well-being goals as specified within the Act.

- A prosperous Wales
- A resilient Wales
- A healthier Wales
- A more equal Wales
- A Wales of cohesive communities
- A Wales of vibrant culture and thriving Welsh language
- A globally responsible Wales

1.7 The overriding principle of the PSB's activities is sustainable development. This means the PSB must act in a manner which seeks to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs. The Board use the five key ways of working to carry out sustainable development:

- Long Term
- Prevention
- Integration
- Collaboration
- Involvement

1.8 The PSB initially had two main tasks -

- To prepare and publish an assessment of the state of economic, social, environmental and cultural well-being of Conwy and Denbighshire, and
- To prepare and publish a Local Well-being Plan for the counties of Conwy and Denbighshire setting out local objectives and the steps it proposes to take to meet them.

1.9 The well-being assessment was published in April 2017 and was informed by data, national and local research and most importantly feedback from residents, visitors and businesses through the County Conversation during the summer and autumn 2016. The assessment is available to view on the Conwy and Denbighshire PSB website (http://conwyanddenbighshirepsb.org.uk/wellbeing-assessment).

1.10 The Conwy and Denbighshire Local Well-being Plan was approved in April 2018 and sets out the local objectives we as a Board will take to improve the economic, social, cultural and environmental well-being for the area. This is where the PSB feel they can make the greatest contribution without duplicating good work already taking place within existing partnerships and organisations. The priorities the PSB has opted to take forward are:

- People - Good Mental Well-being for All Ages
- Community – Community Empowerment
- Place - Environmental Resilience

1.11 The PSB have also committed to 4 additional principles which support the priorities -

- To address inequalities and treat everyone equally.
- To support and promote the Welsh Language.
- To support access to appropriate accommodation.
- To avoid duplication.

1.12 Please find the Terms of Reference for the Conwy and Denbighshire PSB and the Conwy and Denbighshire Well-being Plan (summary and technical versions) appended to this document for further information.

## 2. Effectiveness of PSBs, resourcing and capacity

2.1 In accordance with the Act, the Local Authority partners provide secretariat support for the Board. This support rotates between the two local authorities (Conwy County Borough Council and Denbighshire County Council) on a biannual basis.

2.2 An officer group has been established for the PSB which provides support for Board activities such as consultation and engagement, editorial input or data collection/analysis. Officers who support the board are undertaking work in addition to their usual job role.

2.3 The Public Services Board does not have any dedicated resource to deliver projects in support of their identified priorities and also considers that the creation of another 'layer' of work would not be effective. As the priorities are developed in more detail, the PSB will assess the allocation of staff capacity and or funding resources either from existing budgets or through grant applications. The board recognises it can most usefully provide leadership, scrutiny and promotion of work in

these areas among existing structures, and seek to consolidate and challenge those structures to meet the agenda that it has set out.

2.3 Welsh Government have provided a regional grant (based on local health board footing) to support PSB's to deliver their Well-being Plans. In North Wales this supports 4 PSB's. For 2018/19, in North Wales the grant will be used to -

- Ensure analytical capacity and arrangements to support the maintenance of the local well-being assessments.
- Commission research around any identified gaps in our intelligence and analysis, including those outlined in feedback from the Future Generations Commissioner and Welsh Government.
- Commission research into best practice interventions, helping identify potential steps in support of local well-being objectives.
- Work collaboratively across North Wales on common themes.
- Ensure that the good regional engagement and involvement work that has informed our assessments and plans can continue.

## 3. Evidence of issues or barriers that may impact on effective working, and examples of good practice and innovation.

3.1 There is a real sense of willingness and support from PSB members to make progress against the PSB well-being objectives. All partners can see the potential collective and organisational benefit of the actions that have been agreed but there are organisational pressures and often different planning timetables that can sometimes restrict the capacity and resources of partners to contribute as fully as they'd like to the work.

3.2 In addition to organisational pressures, several PSB partners are members of multiple PSB's both regionally (such as North Wales Fire and Rescue Service, Betsi Cadwaladr University Health Board, North Wales Police etc) and nationally (such as Natural Resource Wales and Public Health Wales). As well as compounding the capacity and resource issue in supporting 4 PSB's across North Wales, this involves working to different local priorities.

3.3 The partnership landscape is complex within North Wales, as there are several regional strategic partnerships in operation (such as Regional Partnership Board, Safer Communities Board etc). Although this presents more opportunity for collaborative working, conversely there is a danger of duplication and / or too many priorities for partner organisations to focus on and allocate support and resources too.

3.4 The Conwy and Denbighshire PSB feel there is a need to better understand existing partnership arrangements locally and in time seek to consolidate and challenge those structures in order for the PSB to influence prioritisation and work going forward locally.

3.5 There is a concern there is limited resources and financial support to deliver the programme of work needed to achieve the local well-being priorities for the area.

3.6 The Act is about behaviour change (both individually and organisationally) and although the PSB wants to take different actions - there is uncertainty in how the PSB can influence, facilitate and support behaviour change to achieve our objectives, especially in the current economic climate of public sector squeeze.

# Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych

# Cylch Gorchwyl

## 1. Gofynion Statudol

1.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf"), yn gosod dyletswydd lles ar gyrff cyhoeddus penodedig i ddatblygu'n gynaliadwy. Mae Rhan 4 y Ddeddf yn gofyn am sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) lle mae cyrff cyhoeddus yn cydweithio er mwyn cyfrannu at gyflawni'r nodau lles.

1.2 Rhaid cael BGC ar gyfer pob ardal Awdurdod Lleol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae adran 47 y Ddeddf yn caniatáu i ddau neu fwy BGC uno os credant y byddai hynny'n eu helpu i gyfrannu at gyflawni'r nodau lles. Mae adran 48 y Ddeddf hefyd yn caniatáu i ddau neu fwy BGC gydweithio os credant y byddai hynny'n eu helpu i gyfrannu at gyflawni'r nodau lles.

1.3 Defnyddiwyd y pwerau a roddir yn adran 47 y Ddeddf i uno BGC Conwy a BGC Sir Ddinbych yn un BGC ar gyfer ardal Conwy a Sir Ddinbych ("y Bwrdd"). Mae'r Bwrdd wedi gwneud y penderfyniad hwn gan ddeall y perygl nad oes unrhyw ddarpariaeth ar hyn o bryd o fewn y Ddeddf i wahanu'r Bwrdd.

## 2. Nod

2.1 Nod y Bwrdd yw bod yn uchelgeisiol, yn arloesol ac yn frwdfrydig i gydweithio er mwyn dod o hyd i atebion cynaliadwy i'r gwasanaeth.

## 3. Diben

3.1 Gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ardal y Bwrdd trwy gyfrannu at gyflawni'r nodau lles cenedlaethol a nodir yn y Ddeddf, gan gynnwys:

- Cymru lewyrchus
- Cymru wydn
- Cymru iachach
- Cymru fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynol
- Cymru lle mae diwylliant bywiog a'r iaith Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sydd â chyfrifoldeb byd-eang

3.2 Bydd y Bwrdd yn cadw at yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a nodir yn y Ddeddf, sy'n ceisio sicrhau bod anghenion presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Bydd y Bwrdd yn canolbwyntio ar y pum prif ffordd o weithio:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cyfranogi

3.3 Bydd BGC Conwy a Sir Ddinbych yn gyfrifol am y gofynion statudol canlynol -

- Paratoi, cyhoeddi ac adolygu asesiad o gyflwr lles economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd yng Nghonwy a Sir Ddinbych erbyn Ebrill 2017.
- Paratoi cynllun lles lleol i Gonwy a Sir Ddinbych, gan osod amcanion lles lleol a'r camau y mae'n cynnig eu cymryd i'w diwallu erbyn Mai 2018.
- Cymryd pob cam rhesymol i ddiwallu'r amcanion lleol o fewn y cynllun lles lleol.
- Cyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n nodi cynnydd y Bwrdd o ran diwallu'r amcanion lleol.

## 4. Egwyddorion

4.1 Bydd y Bwrdd yn gweithio yn unol â'r egwyddorion canlynol:

- **Parch -** bydd yr holl bartneriaid yn parchu ei gilydd.
- **Gonestrwydd -** bydd yr holl bartneriaid yn gwneud penderfyniadau gyda gonestrwydd, fel eu bod yn gyson, yn egwyddorol ac yn onest.
- **Cydatebolrwydd –** mae partneriaid yn atebol i'w gilydd am gyflawni canlyniadau y maent wedi cytuno arnynt ar y cyd ac y mae ganddynt gydberchnogaeth ohonynt.
- **Gwerth -** mae pob partner yn gyfartal ar y Bwrdd a rhaid i bob aelod werthfawrogi'r naill a'r llall a'u cyfraniad.
- **Ymddiried a Bod yn Agored -** er mwyn sicrhau bod pob partner yn cael eu cynnwys ac yn cymryd rhan.

## 5. Aelodaeth

### Aelodau Statudol

5.1 Dyma Aelodau Statudol y Bwrdd:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Sir Ddinbych
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru

5.2 Dyma'r cynrychiolwyr a enwebwyd ac y cytunwyd arnynt ar gyfer y sefydliadau sy'n Aelodau Statudol ar y Bwrdd:

| Aelodau Statudol | Cynrychiolydd a Enwebwyd |
|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Cyfarwyddwr Rhanbarth Canolog (yn cynrychioli'r Cadeirydd) |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Y Prif Weithredwr |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Yr Arweinydd |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Y Prif Weithredwr |
| Cyngor Sir Ddinbych | Yr Arweinydd |
| Cyngor Sir Ddinbych | Y Prif Weithredwr |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Pennaeth Gweithrediadau'r Gogledd (yn cynrychioli'r Prif Weithredwr) |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru | Y Prif Swyddog Tân |

5.3 Mae'r Aelodau Statudol yn gyfrifol ar y cyd am gyflawni dyletswyddau statudol y Bwrdd. Golyga hyn bod angen i'r Aelodau Statudol gytuno'n unfrydol mewn perthynas â chyflawni eu dyletswyddau dan y Ddeddf, fel y nodir ym mharagraff 3.3.

## Cyfranogwyr a Wahoddwyd

5.4 Mae gofyniad statudol ar y Bwrdd i wahodd 'Cyfranogwyr a Wahoddwyd', sy'n cyflawni swyddogaethau o natur gyhoeddus, i gymryd rhan yng ngweithgarwch y Bwrdd.

5.5 Gofynnir i Gyfranogwyr a Wahoddwyd ymuno â'r Bwrdd trwy lythyr gan y Cadeirydd yn nodi'r rhesymau dros eu gwahodd a'r disgwyliadau fydd ar y sawl a wahoddir. Caiff pob Cyfranogwr a Wahoddwyd gymryd rhan yng ngweithgarwch y Bwrdd o'r diwrnod hwnnw y bydd y Bwrdd yn derbyn ei hysbysiad ei fod yn derbyn y gwahoddiad.

5.6 Nid oes rhaid i Gyfranogwyr a Wahoddwyd dderbyn y gwahoddiad, a thrwy dderbyn y gwahoddiad i gymryd rhan yng ngweithgarwch y BGC, nid ydynt yn dod yn aelodau o'r Bwrdd. Mae gan Gyfranogwyr a Wahoddwyd hawl i gydweithio â'r Bwrdd trwy wneud sylwadau i'r Bwrdd am yr asesiad lles lleol a'r cynllun lles lleol, gan gymryd rhan yng nghyfarfodydd y Bwrdd a darparu cyngor a chymorth arall yn ôl y gofyn.

5.7 Dyma'r cynrychiolwyr a enwebwyd ac y cytunwyd arnynt ar gyfer y Cyfranogwyr a Wahoddwyd, sydd wedi derbyn y gwahoddiad i gymryd rhan:

| Cyfranogwyr a Wahoddwyd | Cynrychiolydd a Enwebwyd |
|---|---|
| Cefnogaeth Cymuned a Gwirfoddol Conwy | Y Prif Swyddog |
| Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych | Y Prif Swyddog Gweithredol |
| Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol | Pennaeth yr Uned Gyflawni Leol |
| Heddlu Gogledd Cymru | Yr Uwcharolygydd |
| Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd | Y Prif Weithredwr |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru | Cyfarwyddwr Cyswllt Iechyd y Cyhoedd (yn cynrychioli Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd) |
| Cwmni Adsefydlu Cymunedau Cymru | Pennaeth yr Uned Gyflawni Leol |
| Llywodraeth Cymru | Uwch Was Sifil |

## Partneriaid Eraill

5.8 Bydd y Bwrdd yn ymgysylltu â phartneriaid allweddol eraill yng Nghonwy a Sir Ddinbych sy'n cyflawni swyddogaethau o natur gyhoeddus ac sydd:

i. â chysylltiad materol â lles Conwy a Sir Ddinbych;
ii. yn cyflawni gwasanaethau cyhoeddus pwysig; ac
iii. yn rhan o waith paratoi, gweithredu a chyflawni'r Bwrdd.

5.9 Cysylltir â'r sefydliadau canlynol i geisio cyngor mewn modd ac i'r graddau y mae'r Bwrdd yn ei ystyried yn briodol. Mae'r partneriaid hyn yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:

| Partneriaid Eraill |
|---|
| Cynghorau Cymuned |
| Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru |

| |
|---|
| Sefydliadau Addysg Uwch / Addysg Bellach (gan gynnwys Grŵp Llandrillo Menai) |
| Cyngor Celfyddydau Cymru |
| Cyngor Chwaraeon Cymru |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru |
| Amgueddfa Genedlaethol Cymru |
| Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig |
| Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru |

5.10 Gall y Bwrdd ystyried pa bartneriaid eraill, os oes yna rai, yr hoffai eu gwahodd i gymryd rhan yn ei waith ac i ba raddau, cyhyd â'u bod yn bodloni'r meini prawf llawn a nodir yng nghymal 5.5. Caiff hyn ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau y caiff y blaenoriaethau a nodir gan yr amcanion lles eu cefnogi yn briodol gyda'r adnoddau addas i'w cyflawni.

5.11 Gofynnir i Bartneriaid Eraill ymuno â'r Bwrdd trwy lythyr gan y Cadeirydd yn nodi'r rhesymau dros eu gwahodd a'r disgwyliadau fydd ar y sawl a wahoddir. Ar ôl ymuno â'r Bwrdd, bydd sefydliadau partner yn dod yn Gyfranogwyr a Wahoddwyd ac yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd yn yr un ffordd â'r Aelodau Statudol.

5.12 O'r partneriaid allweddol a restrir yn 5.9 uchod, mae'r Bwrdd wedi dewis un partner i gychwyn i ddod yn Gyfranogwr a Wahoddwyd, sef Iechyd Cyhoeddus Cymru; nodir y cynrychiolydd a enwebwyd ym mharagraff 5.7.

## Gwybodaeth

5.13 Gall y Bwrdd ofyn i Gyfranogwyr a Wahoddwyd a phartneriaid eraill ddarparu gwybodaeth am unrhyw gamau y maent yn eu cymryd allai gyfrannu at gyflawni'r nodau lles. Ond nid oes rhaid i'r sefydliadau ddarparu gwybodaeth os:

(a) ydynt yn ystyried y byddai hynny'n anghydnaws â'u dyletswyddau, neu
(b) y byddai'n cael effaith niweidiol ar gyflawni eu swyddogaethau, neu
(c) y maent wedi'u gwahardd rhag darparu'r wybodaeth yn ôl y gyfraith.

5.14 Os bydd sefydliad yn penderfynu peidio â darparu gwybodaeth y mae'r Bwrdd wedi gofyn amdani, rhaid iddo ddarparu rhesymau am ei benderfyniad i'r Bwrdd yn ysgrifenedig.

## Dirprwy Gynrychiolwyr

5.15 Gall Aelod Statudol neu Gyfranogwr a Wahoddwyd i'r Bwrdd ddynodi unigolyn o'u sefydliad i'w cynrychioli. Yr unig gyfyngiad yw mai'r unig berson y gall maer a etholwyd yn uniongyrchol neu arweinydd gweithredol Awdurdod Lleol ei ddynodi yw aelod arall o weithrediaeth yr Awdurdod hwnnw.

5.16 Dylai'r person a ddynodir fod â'r awdurdod i wneud penderfyniadau ar ran eu sefydliad.

## 6. Rolau a Chyfrifoldebau Aelodau

6.1 Dyma rolau a chyfrifoldebau pob Aelod Statudol a phartneriaid a wahoddwyd ar y Bwrdd:

- Darparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer datblygu'r asesiad lles lleol a'r cynllun lles lleol a bod yn gyfrifol am gyflawni'r cynllun yn llwyddiannus ac yn atebol i'r cyhoedd am ei berfformiad;
- Sicrhau bod pobl sydd â diddordeb mewn gwella lles yr ardal yn cymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd;
- Sicrhau y caiff gwybodaeth ei chyfathrebu'n effeithiol trwy eu sefydliadau eu hunain;

- Sefydlu diwylliant o ddatblygu cynaliadwy o fewn eu sefydliad cyhoeddus perthnasol;
- Sicrhau y caiff perfformiad a risgiau'r Bwrdd eu rheoli'n gadarn;
- Sicrhau y caiff gwaith y Bwrdd ei gyflwyno i'w archwilio'n rheolaidd;
- Sicrhau y caiff y penderfyniadau y cytunir arnynt gan y Bwrdd eu rhoi ar waith (nid yw penderfyniadau'r Bwrdd yn gyfreithiol rwymol, felly cyfrifoldeb pob sefydliad sy'n aelod yw hyn);
- Cyfrannu at ariannu gwaith y Bwrdd os bydd angen a thrwy gytundeb.

## 7. Cadeirydd ac Is-gadeirydd

7.1 Bydd y Cadeirydd yn cael ei ethol bob dwy flynedd trwy gytundeb aelodau'r Bwrdd. Gall y Cadeirydd fod yn Aelod Statudol neu'n Gyfranogwr a Wahoddwyd. Bydd rôl y Cadeirydd yn cynnwys:

- Rheoli rhaglen y Bwrdd
- Adolygu'r cofnodion drafft
- Cynrychioli'r Bwrdd mewn digwyddiadau allweddol
- Rheoli unrhyw wrthdaro buddiannau
- Adfer unrhyw anghydfod
- Cynnal trefn dda

7.2 Bydd yr Is-gadeirydd yn cael ei ethol bob dwy flynedd trwy gytundeb aelodau'r Bwrdd. Gall yr Is-gadeirydd fod yn Aelod Statudol neu'n Gyfranogwr a Wahoddwyd. Byddai'n arfer da i'r Is-gadeirydd fod o sefydliad partner gwahanol i'r Cadeirydd. Bydd yr Is-gadeirydd yn cymryd rôl y Cadeirydd os nad yw'r Cadeirydd yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau.

## 8. Cyfarfodydd

8.1 Cyfarfodydd arferol y Bwrdd:

- Cynhelir cyfarfodydd o leiaf unwaith y chwarter, ond gellir cyfarfod yn amlach os bydd angen hynny.
- Bydd y Cymorth Gweinyddol yn gosod calendr blynyddol o gyfarfodydd (fel y nodir yng nghymal 11).
- Bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal mewn lleoliad canolog.
- Bydd partneriaid yn darparu ystafelloedd cyfarfod a lluniaeth am ddim.
- Bydd y Bwrdd yn gyfarfod caeedig. Fodd bynnag, bydd cyfarfod agored blynyddol yn cael ei gynnal i hyrwyddo tryloywder.
- Gall Aelodau Statudol a Chyfranogwyr a Wahoddwyd ofyn i gael cynnwys eitemau ar y rhaglen, gyda'r Cadeirydd yn eu cymeradwyo'n derfynol.
- Bydd rhaglenni, cofnodion ac adroddiadau yn cael eu hanfon yn electronig 7 diwrnod cyn y cyfarfod. Bydd pob dogfen yn ddwyieithog onid ydynt yn ddogfennau gweithio.
- Darperir cyfleusterau cyfieithu ym mhob cyfarfod.
- Bydd cofnodion y cyfarfod yn cael eu hanfon yn electronig o fewn 10 diwrnod i'r cyfarfod.
- Mae'n rhaid cyflwyno pob adroddiad yn electronig i'r Ysgrifenyddiaeth 15 diwrnod cyn y cyfarfod.

8.2 Cyfarfodydd gorfodol y Bwrdd:

- Rhaid i'r Bwrdd gynnal 'cyfarfod gorfodol', wedi'i gadeirio gan yr Awdurdod Lleol, ddim hwyrach na 60 diwrnod ar ôl pob etholiad cyffredin o gynghorwyr. Etholiadau cyffredin yw'r rheiny lle mae pob sedd ar gyngor yn wynebu etholiad neu ailetholiad.
- Bydd aelodau'r Bwrdd yn penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn y cyfarfod gorfodol ymysg yr Aelodau Statudol a'r Cyfranogwyr a Wahoddwyd.

- Yn y cyfarfod hwn, bydd y Bwrdd hefyd yn:
    a) Pennu pryd a pha mor aml y bydd yn cyfarfod
    b) Adolygu a chytuno ar gylch gorchwyl

## 9. Is-grwpiau

9.1 Gall y Bwrdd sefydlu is-grwpiau i'w gefnogi i gyflawni ei swyddogaethau a gall y Bwrdd awdurdodi is-grwpiau i gyflawni nifer gyfyngedig o swyddogaethau'r Bwrdd.

9.2 Rhaid i bob un o is-grwpiau'r Bwrdd gynnwys o leiaf un o Aelodau Statudol y Bwrdd, all ddewis cynrychiolydd priodol i fynychu a chyfrannu at waith yr is-grŵp. Gall yr is-grŵp hefyd gynnwys unrhyw Gyfranogwr a Wahoddwyd neu bartner arall.

9.3 Er na ellir awdurdodi'r is-grwpiau eu hunain i gwblhau a chymeradwyo'r asesiad lles lleol na'r cynllun lles lleol, disgwylir iddynt chwarae rôl bwysig o ran ymchwilio a datblygu'r rhain ar ffurf drafft.

9.4 **Ni chaiff** y Bwrdd awdurdodi is-grŵp i -

(a) wahodd pobl i gymryd rhan yng ngweithgarwch y Bwrdd;
(b) gosod, adolygu na diwygio amcanion lleol y Bwrdd;
(c) paratoi na chyhoeddi asesiad o les;
(d) ymgynghori ar asesiad o les na pharatoi asesiad drafft er dibenion ymgynghori;
(e) paratoi na chyhoeddi cynllun lles lleol;
(f) ymgynghori ar gynllun lles lleol na pharatoi cynllun lles lleol drafft er dibenion ymgynghori;
(g) adolygu na diwygio cynllun lles lleol na chyhoeddi cynllun lles lleol diwygiedig;
(h) ymgynghori ar ddiwygiad i gynllun lles lleol;
(i) cytuno bod y Bwrdd yn uno neu'n cydweithio â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus arall.

## 10. Ymgysylltu Ehangach

10.1 Mae ffocws y Bwrdd ar y dinesydd yn golygu y bydd yn sefydlu perthynas bwrpasol â phobl a chymunedau ledled Conwy a Sir Ddinbych. Mae'n hanfodol i'r Bwrdd ystyried pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau lles, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth yr ardal y mae'r Bwrdd yn ei gwasanaethu.

10.2 Bydd y Bwrdd yn gofalu ei fod yn sicrhau priodoldeb a didueddrwydd prosesau'r Bwrdd a'i fod yn ymwybodol o risgiau unrhyw syniad allai godi bod grŵp penodol yn cael gormod o ran neu ddylanwad ar drafodaethau a gweithgareddau'r Bwrdd.

10.3 Bydd y Bwrdd yn cymryd camau ychwanegol y tu allan i gyfarfodydd i sicrhau ei fod yn gwrando ar lais y cyhoedd, a bod y llais hwnnw'n helpu i lunio'r asesiad o les a'r cynllun lles lleol. Disgwylir i hyn gynnwys ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu, fydd yn cynnig cyfleoedd i bobl leisio a thrafod syniadau trwy drefniadau ar-lein ac ymgysylltu â'r gymuned.

**10.4** Bydd yr holl ymgysylltu'n cydymffurfio â threfniadau Ymgysylltu BGC, fel y'i hamlinellir yn y cynllun cyfathrebu yn atodiad 1.

## 11. Cymorth Gweinyddol

11.1 Rhaid i'r Awdurdodau Lleol sicrhau bod cymorth gweinyddol ar gael i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd y cymorth hwn yn cylchdroi rhwng y ddau awdurdod lleol ddwywaith y flwyddyn. Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn darparu cymorth gweinyddol am flwyddyn gyntaf y BGC.

11.2 Bydd cymorth gweinyddol yn cynnwys:

- sicrhau bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael ei sefydlu ac yn cyfarfod yn rheolaidd;
- paratoi rhaglen a chomisiynu papurau ar gyfer cyfarfodydd;
- gwahodd cyfranogwyr a rheoli presenoldeb;
- cadw cofnodion;
- gweithio ar yr adroddiad blynyddol;
- paratoi tystiolaeth i'w archwilio.

## 12. Adnoddau

12.1 Mater i'r Bwrdd yw penderfynu sut y bydd yn darparu adnoddau ar gyfer y swyddogaethau y mae'n rhaid iddo eu cyflawni, sy'n gyfrifoldeb i'r holl Aelod Statudol ar y cyd. Mater i'r Bwrdd yw penderfynu ar adnoddau priodol a chymesur ar gyfer cyd swyddogaethau'r Bwrdd. Nid oes unrhyw beth yn rhwystro Cyfranogwyr a Wahoddwyd na phartneriaid eraill rhag cynnig cyngor, cymorth ac adnoddau i'r Bwrdd, er enghraifft, ar ffurf arbenigedd dadansoddol neu broffesiynol. Nid oes rhaid iddynt ddarparu cymorth ariannol, ond gallant wneud hynny os ydynt yn ystyried bod hynny o fewn eu pwerau.

## 13. Penderfyniadau

13.1 Bydd penderfyniadau'r Bwrdd, o ran y cyfrifoldebau statudol a nodir ym mharagraff 7, yn ddilys pan fyddant wedi'u gwneud ar y cyd ac yn unfrydol gan bob Aelod Statudol a chyda phob Aelod Statudol yn bresennol yn y cyfarfod yn unig.

13.2 Ar gyfer pob penderfyniad arall (nad ydynt yn ymwneud yn benodol â'r dyletswyddau statudol a nodir ym mharagraff 7), bydd y BGC yn gweithio ar sail consensws. Fodd bynnag, os na chyrhaeddir consensws, bydd yr aelodau statudol yn gwneud y penderfyniad trwy bleidlais (un bleidlais i bob sefydliad).

13.3 Fodd bynnag, ni chaiff ac ni fydd Aelodau Statudol yn gweithio ar eu pennau eu hunain. Mae gan gyrff a sefydliadau eraill yn yr ardal gyfraniad sylweddol i'w wneud. Rhaid rhoi ystyriaeth i bob barn cyn gwneud unrhyw benderfyniad.

## 14. Cworwm

14.1 Bydd cworwm mewn cyfarfod o'r Bwrdd os yw'r holl Aelodau Statudol neu eu cynrychiolydd/wyr a enwebwyd yn bresennol. Ar gyfer Aelodau Statudol sydd â mwy nag un cynrychiolydd ar y Bwrdd, bydd cworwm mewn cyfarfod o'r Bwrdd os yw o leiaf un cynrychiolydd yn bresennol.

## 15. Gwrthdaro Buddiannau

15.1 Er diben y Cylch Gorchwyl hwn, diffinnir 'gwrthdaro buddiannau' fel unrhyw un sydd mewn sefyllfa i ddylanwadu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar ganlyniad busnes y Bwrdd. Rhaid iddynt sicrhau nad yw eu buddiannau personol yn cystadlu â'u rôl ar y Bwrdd.

15.2 Mae dyletswydd ar bob cynrychiolwr i roi gwybod am unrhyw wrthdaro buddiannau sy'n berthnasol.

15.3 Bydd y Cadeirydd yn cadarnhau ar ddechrau pob cyfarfod p'un ai oes yna unrhyw wrthdaro buddiannau ai peidio, a beth y dylid ei wneud am hynny.

## 16. Anghydfod

16.1 Bydd pob Aelod yn gweithio ar sail cydweithrediad ac ewyllys da, ac yn trefnu i drafod unrhyw broblem neu anghydfod fydd yn codi â'r naill a'r llall cyn gynted ag y bo modd, gan geisio datrys unrhyw anghytundeb trwy drafodaethau cynnar. Os na chaiff yr anghydfod ei ddatrys, gellir ei gyfeirio at y Cadeirydd fydd, gan ddefnyddio'r holl sianeli priodol, yn ceisio datrys unrhyw anghytundeb sy'n codi o fewn y Bartneriaeth.

16.2 Bydd y Bwrdd yn gweithredu ar sail consensws neu fwyafrif mewn perthynas ag anghydfodau.

## 17. Llywodraethu

**Perfformiad**

17.1 Bydd adroddiadau amlygu rheolaidd a chynnydd o ran blaenoriaethau'r BGC yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd.

17.2 Bydd adroddiad blynyddol yn cael ei gynhyrchu a'i gyhoeddi.

17.3 Rhaid paratoi adroddiad a'i gyhoeddi'n ddim hwyrach na 14 mis ar ôl cyhoeddi cynllun lles lleol y Bwrdd, ac wedyn yn ddim hwyrach na blwyddyn ar ôl cyhoeddi'r adroddiad blaenorol. Rhaid anfon copi o'r adroddiad at y canlynol:

- Gweinidogion Cymru;
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru;
- Archwilydd Cyffredinol Cymru;
- Pwyllgor trosolwg a chraffu perthnasol yr Awdurdod Lleol.

## 18. Llywodraethu

**Archwilio**

18.1 Bydd y Bwrdd yn cael ei archwilio gan bwyllgor craffu llywodraeth leol dynodedig yr awdurdodau lleol. Mae Adran 35 y Ddeddf yn nodi bod rhaid i bwyllgorau trosolwg a chraffu fod â'r pŵer i adolygu a chraffu ar benderfyniadau, camau gweithredu a threfniadau llywodraethu'r Bwrdd.

18.2 Bydd y Bwrdd yn parhau i gael ei archwilio trwy drefniadau presennol Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Partneriaeth pob Awdurdod Lleol nes bydd proses y cytunir arni'n cael ei rhoi ar waith o fis Mai 2017 ymlaen.

## 19. Gadael

19.1 Dylai unrhyw Gyfranogwr a Wahoddwyd nad ydynt yn dymuno parhau'n aelod o'r Bwrdd roi rhybudd ysgrifenedig i'r Cadeirydd. Dylai'r partner ymdrechu i anrhydeddu unrhyw benderfyniadau ac ymrwymiadau a wnaed.

## 20. Adolygu’r Cylch Gorchwyl

20.1 Rhaid adolygu'r Cylch Gorchwyl hwn ym mhob Cyfarfod Gorfodol.

20.2 Bydd y Cylch Gorchwyl hwn yn cael ei adolygu o leiaf bob dwy flynedd. Gall y Bwrdd adolygu a chytuno i ddiwygio’r Cylch Gorchwyl hwn ar unrhyw adeg.

# Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych

## Cynllun Lles (2018 – 2023)



# Rhagair

Ar ran partneriaid **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Conwy a Sir Ddinbych**, rwy'n falch o gyhoeddi'r Cynllun Lles Lleol hwn ar gyfer ein dwy sir. Mae'n ffrwyth gwaith a ddechreuodd yn Ebrill 2016, ac mae'n cynrychioli ein casgliadau o'r hyn a deimlwn yw'r prif feysydd lle mae angen neu her fwyaf i'n cymunedau, a lle y teimlwn y gall y BGC wneud y cyfraniad mwyaf heb ddyblygu gwaith da sydd eisoes yn cael ei wneud o fewn partneriaethau a sefydliadau presennol.


Mae llawer o waith wedi'i wneud yn barod i gyrraedd y pwynt hwn, ond cychwyn y daith yn unig yw hwn i'r BGC. Mae'r cynllun hwn yn amlinelliad o'r hyn yr hoffem ei gyflawni, ond mae mwy o waith i'w wneud i ddatblygu ein rhaglen waith, ac mae croeso i'ch mewnbwn fel rhan o'n sgwrs barhaus gyda'n cymunedau. Os hoffech gael gwybodaeth am ein gwaith, cymryd rhan neu roi adborth i ni, mae ein manylion cyswllt ar dudalen olaf y ddogfen hon.

Mae'r BGC wedi rhoi cyfle cyffrous i wasanaethau cyhoeddus ddod ynghyd i herio problemau difrifol yn ein hardaloedd cymunedol - mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 wedi ein galluogi i wneud hyn yn fwy effeithiol. Wrth gwrs rhaid i ni fod yn realistig ynglŷn â'r cyfyngiadau ariannol y mae ein sectorau'n eu hwynebu, ond ar yr un pryd dylem ei ystyried fel cyfle i wneud gwahaniaeth gwirioneddol a bod yn agored i weithio mewn gwahanol ffyrdd. Mae bob partner wedi ymrwymo i weithio ar y cyd i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy ac effeithiol sy'n atal problemau rhag codi yn y tymor hir. Rydym eisiau cefnogi ein cymunedau i fod yn ffyniannus, yn wydn ac yn iachach. Rydym eisiau cyfrannu at weledigaeth Llywodraeth Cymru o Gymru sy'n fwy cyfartal a chyfrifol yn fyd-eang, lle mae gennym gymunedau cydlynol a diwylliant bywiog.


**Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych yn cynnwys nifer o sefydliadau sector cyhoeddus sy'n cynnwys:**

# Helo

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych eisiau i bawb sy'n byw yma fwynhau lles.



**Mae a wnelo lles a bod yn iach a hapus ym mhob rhan o'ch bywyd.** Iechyd corfforol a meddyliol da ond hefyd perthnasoedd da a chymunedau gwydn.



Mae gan bob sir yng Nghymru Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lle mae cyrff cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i ganolbwyntio ar les cenedlaethau'r dyfodol.

Fe'i sefydlwyd o dan **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015**. Mae saith nod y dylai bob cynllun weithio tuag at sicrhau:

- Cymru lewyrchus
- Cymru wydn
- Cymru iachach
- Cymru fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynol
- Cymru gyda diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus
- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang



Mae gwasanaethau Conwy a Sir Ddinbych eisoes yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi pobl ar draws ein rhanbarth.

**Felly cymerwyd y cyfle hwn i sefydlu un Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.** Mae hyn yn golygu y gallwn ddefnyddio ein hadnoddau'n well i ddiwallu anghenion nawr ac yn y dyfodol.
Rydym yn helpu gwasanaethau i weithio gyda'i gilydd er mwyn gwella:

- lles diwylliannol
- lles economaidd
- lles amgylcheddol
- lles cymdeithasol.

Hwn yw ein **Cynllun Lles** – mae'n cynnwys yr heriau y mae cymunedau'n eu hwynebu y teimlwn y gallwn eu gwella trwy weithio gyda'n gilydd.

Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar **3 maes blaenoriaeth:**

1. **Pobl** – Cefnogi Lles Meddwl Da i bobl o bob oedran
2. **Cymuned** – Cefnogi Grymuso'r Gymuned
3. **Lle** – Cefnogi Gwytnwch Amgylcheddol.

**Mae gennym bedair egwyddor sy'n cefnogi'r blaenoriaethau hyn:**

- Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a thrin pawb yn gyfartal
- Cefnogi a hybu'r Gymraeg
- Cefnogi pobl fel bod llety iach, diogel a phriodol ar gael iddynt
- Osgoi dyblygu gwaith.

# Ffeithiau lles am Gonwy a Sir Ddinbych



## Ffeithiau Diwylliannol:




Mae **26%** o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg

Poblogaeth gyfunol Conwy a Sir Ddinbych ydi **211,300**



**Mae pobl ifanc yn gadael yr ardal am wahanol resymau**

→ addysg

→ cyflogaeth

→ agweddau cymdeithasol a ffordd o fyw

### Ar hyn o bryd

Mae **12%** yn 75+ oed

Mae **27%** o dan 25 oed

### Erbyn 2039

Bydd **19%** yn 75+ oed

Bydd **25%** o dan 25 oed

## Ffeithiau Cymdeithasol:



Mae **40%** o oedolion yn yfed mwy na'r canllawiau sy'n cael eu hargymell o leiaf unwaith yr wythnos

Mae Conwy a Sir Ddinbych yn y **3ydd** a'r **4ydd** safle uchaf yng Nghymru o ran derbyniadau'n gysylltiedig ag alcohol i ysbyty

Mae **54-58%** o'r boblogaeth yn ordew neu dros bwysau

**Mamau ifanc**

Cyfraddau beichiogi 2014 ar gyfer merched o dan 18 oed

**30** o bob 1,000 yng Nghonwy

**31** o bob 1,000 yn Sir Ddinbych

(25.4 o bob 1,000 yng Nghymru)



**Pwysau geni isel**

**5.5%** o bob genedigaeth fyw yng Nghonwy yn 2016

**8.3%** o bob genedigaeth fyw yn Sir Ddinbych yn 2016

**Imiwneiddio**

**95%** yng Nghonwy

**96%** yn Sir Ddinbych

Mae **26%** o blant 4 a 5 oed yn ordew

**Bwydo ar y fron**

**50%** o fabanod yn cael eu bwydo ar y fron

(57% yng Nghymru)

**37%** yn derbyn llaeth o'r fron ar ôl 10 diwrnod

**30%** ar ôl 6 wythnos

**Cafwyd gostyngiad yn nifer y mamau sy'n ysmygu o 14% i 5% yn ystod 2016-2017**

**Plant 0-4 oed sy'n byw mewn tlodi**



**30%** yng Nghonwy

**31%** yn Sir Ddinbych

**Marwolaethau babanod**

**5.1** o bob 1,000 o enedigaethau yng Nghonwy

**4.7** o bob 1,000 o enedigaethau yn Sir Ddinbych

**Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod (PNP)**

Yng Nghymru mae **1 o bob 7** oedolyn wedi cael pedwar PNP neu fwy

**Ffactorau risg ar ddechrau bywyd:**

- oed y fam
- cyswllt gyda sylweddau fel alcohol, cyffuriau neu dybaco
- diet neu faeth gwael
- gofal cyn geni annigonol
- dod i gysylltiad â thrais neu gam-drin
- wynebu tlodi neu anfantais sylweddol
- rhianta anghyson
- datblygiad ieithyddol gwael
- ymlyniad neu fondio gwael ag o leiaf un oedolyn.

Mae **35%** o oedolion yn bwyta 5 ffrwyth neu lysieuyn y dydd



# Ffeithiau lles am Gonwy a Sir Ddinbych



## Ffeithiau amgylcheddol:



Mae ffermwyr yn rheoli dros **75%** o'r tir

Mae coetir yn gorchuddio **13.5%** o'r siroedd





Mae bron i **26,000** o eiddo mewn risg sylweddol o lifogydd



Mae tlodi tanwydd yn effeithio ar **7,600** o aelwydydd

## Ffeithiau economaidd:



Mae **11%** yn hunan gyflogedig (o'i gymharu â 9.2% yng Nghymru)

Mae **38%** mewn swyddi sector cyhoeddus

Mae gan **38%** o bobl naill ai NVQ lefel 4, gradd neu gymhwyster uwch

Mae **15 million** o bobl yn ymweld bob blwyddyn. Mae hyn yn dod â dros **£1.2 biliwn** i'r economi lleol

**Cyflogau**

Mae cyfradd cyflog wythnosol yr ardal hon yn is ar gyfartaledd ar gyfer swyddi llawn amser

- **£469 –** Sir Ddinbych
- **£485 –** Conwy
- **£498 –** Cymru
- **£541–** DU

Mae lefelau incwm aelwydydd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol

**Addysg**

Lefel 2 cyfnod allweddol 4

**53%** Conwy
**57%** Sir Ddinbych
(58% yng Nghymru)

Mae **30%** yn gweithio mewn swyddi sy'n ymwneud â thwristiaeth



# 1. Pobl – Cefnogi lles meddwl da i bobl o bob oedran

Byddwn yn edrych ar ffyrdd y gall partneriaid gydweithio i wneud yn siŵr bod gan bawb les meddwl da.





## Sut mae pethau



Nid yw rhai pobl â phroblemau iechyd meddwl yn gofyn am gymorth.

**Yn y DU bob blwyddyn:**
Bydd gan **25%** o bobl anghenion iechyd meddwl. Y rhai mwyaf cyffredin yw pryder ac iselder.

**Yng Nghymru bob blwyddyn**
Mae **20%** o wariant y GIG ar wasanaethau iechyd meddwl. Mae nifer fawr o dderbyniadau ysbyty a derbyniadau brys yn gysylltiedig â phroblemau iechyd meddwl.



**Iechyd meddwl**
Mae **12.1 %** o'r boblogaeth yn dweud eu bod yn cael eu trin ar gyfer salwch meddwl, hynny yw:

- **9.8%** yng Nghonwy
- **11.6%** yn Sir Ddinbych.

**Hunan-niweidio**
Bu i nifer yr asesiadau ar gyfer plant a phobl ifanc **ddyblu** rhwng 2012-13 a 2015-16.

Mae cyfradd derbyn ar gyfer iechyd meddwl ymhlith pobl ifanc o dan 18 oed **30%** yn uwch na gweddill Cymru.



**Pobl sy'n byw gyda dementia sydd wedi cofrestru gyda meddygfeydd:**

**2011** – **1,700** o gleifion
**2016** – **2,050** o gleifion.

## Os na fydd newid

Byddwn yn methu'r cyfle i gefnogi datblygu oedolion iach.

Bydd gennym ryw 1,000 yn fwy o bobl ag iechyd meddwl gwael erbyn 2035.

Bydd mwy fyth o bobl yn peidio â cheisio help.

Byddwn yn methu cyfleoedd i gamu i mewn yn gynnar ac atal materion rhag gwaethygu.

Bydd lles rhai pobl ifanc yn gwaethygu.

Bydd yna fwy o faterion i wasanaethau ddelio â nhw.

Mewn rhai ardaloedd, ni fydd rhai teuluoedd yn gallu cael cymorth ar yr un lefel.

Bydd plant yn wynebu anghydraddoldebau iechyd.



# Camau Nesaf



## Byddwn yn edrych ar ffyrdd posibl i:

- gydweithio i gefnogi rhieni fel bod plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd
- cydweithio i gefnogi gofalwyr di-dâl
- helpu pobl ifanc i ddysgu ymddygiadau a sgiliau bywyd sy'n cefnogi iechyd a lles
- annog sefydliadau sy'n bartneriaid i ni i roi hyfforddiant lles meddwl i'w gweithlu
- cefnogi lles, dyhead, gwytnwch a sgiliau bywyd pobl ifanc
- cael mwy o weithgareddau sy'n dwyn cenedlaethau at ei gilydd
- gwneud yn fawr o wasanaethau gwirfoddolwyr
- defnyddio'r amgylchedd i annog lles meddwl
- gwneud yn fawr o ragnodi cymdeithasol – cefnogi pobl yn eu cymunedau i wella lles
- datblygu ffyrdd newydd o weithio i hybu iechyd a lles
- helpu pobl i ddibynnu llai ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.



Sut mae hyn yn cefnogi
**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

→ **Cymru iachach**

→ **Cymru fwy cyfartal**

→ **Cymru o gymunedau cydlynol**

# 2. Cymuned – Cefnogi grymuso'r gymuned




Byddwn yn edrych ar ffyrdd i bartneriaid gydweithio i wneud yn siŵr bod gennym gymunedau cryf, sy'n ffynnu.

## Sut mae pethau

Dywedodd pobl wrthym eu bod yn gwerthfawrogi eu cymunedau. Maent yn gwerthfawrogi:

- cyfranogiad y gymuned
- gwasanaethau sy'n hybu lles ac annibyniaeth.



Maent eisiau cyngor a chymorth i helpu grwpiau i weithredu'n annibynnol a llwyddiannus.

Mae **27%** o boblogaeth Conwy a Sir Ddinbych yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol (21% yng Nghymru).

**Rhai rhwng 15-29 oed**



Mae **3,500** yn gadael bob blwyddyn

Mae **3,000** yn symud i mewn.

**Gofal di-dâl**

£ Mae cynnydd mewn gofal di-dâl drwy'r DU. Mae gofal di-dâl yn werth **£132 biliwn y flwyddyn.**

Mae hynna'n agos at wariant ar iechyd yn y DU, sef £134.1 biliwn y flwyddyn.

**Disgwyliad oes**

Mae **25%** o'n poblogaeth dros 65 (20% yng Nghymru).

**Pensiynwyr**

Mae **17%** o dai'n cael eu defnyddio gan un pensiynwr.

Mae **40.9%** o bensiynwyr heb gar. Mae hyn yn golygu bod risg o gael eu hynysu.

Mae **17%** o dai'n cael eu defnyddio gan un pensiynwr yn y rhanbarth hwn. Mae nifer yn wynebu tlodi tanwydd.

**Gwaith**

Mae **50%** o fusnesau'n dweud nad yw dysgwyr sy'n gadael ysgol yn barod ar gyfer gwaith.

Pe byddai gennym swydd i bawb o oed gweithio, byddai angen **13,500** o swyddi ychwanegol yn y rhanbarth.

**Tai**

Mae angen **400** o gartrefi newydd arnom bob blwyddyn.
**Adeiladwyd 314 yn 2016.**



## Os na fydd newid

Erbyn 2039:

- bydd **19%** o'r gymuned yn 75+
- bydd **24%** o dan 25
- bydd aelwydydd un pensiynwr yn cynyddu **3,600**.

Yn sgil newidiadau ariannol a thoriadau:

- bydd gwasanaethau cyhoeddus yn cael mwy o drafferth
- bydd llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol, a chyfleusterau yn dibynnu mwy ar gefnogaeth gymunedol.

Bydd gan wasanaethau fwy o lawer i'w wneud. Wrth i bobl fyw yn hirach, bydd yna fwy o:

- broblemau iechyd oherwydd dewisiadau bywyd afiach
- clefydau fel Diabetes Math 2 a phroblemau â'r cymalau
- pobl y mae angen cymorth arnynt i aros yn eu cartrefi eu hunain
- unigrwydd ac arwahanrwydd.

Bydd gennym lai o bobl ifanc yn byw yma. Erbyn 2039:

- Bydd **16.3%** rhwng 0-15 oed
- Bydd **13.5%** rhwng 16-29 oed.

Bydd hyn yn effeithio ar ein cymunedau.

Bydd gennym lai o bobl o oed gweithio i gefnogi anghenion pobl hŷn.

Bydd cyflogwyr yn wynebu heriau, Mae hyn yn cynnwys y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol sydd angen staff newydd yn lle'r gweithle sy'n heneiddio.

Bydd mwy o alw am dai.

# Camau Nesaf




## Byddwn yn edrych ar ffyrdd posibl i:

- gael cymunedau sy'n gallu diwallu anghenion pobl o bob oedran
- helpu pobl hŷn i wneud beth sy'n bwysig iddyn nhw
- helpu gwasanaethau a chymunedau i gydweithio'n well
- dod o hyd i ffyrdd fforddiadwy i gefnogi pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain
- helpu pobl i addasu eu cartrefi i ddiwallu eu hanghenion
- annog pobl i gynllunio a siapio'u cymunedau
- helpu pobl i deithio i'w gwaith, i addysg ac i wasanaethau
- sicrhau bod rhwydweithiau ffonau symudol a band eang cyflym iawn ar gael i bawb
- rhoi cymorth i'r bobl hynny y mae angen hyfforddiant arnynt i ddefnyddio gwasanaethau digidol
- rhoi cyngor gwell ar yrfaoedd i bobl ifanc, a'u mentora'n well
- cynnig y cyfle i bobl ifanc ddatblygu sgiliau trwy wirfoddoli a chael profiad gwaith
- darparu cartrefi ychwanegol ledled Conwy a Sir Ddinbych
- cysylltu pobl â llety y maent yn gallu ei fforddio
- cefnogi pobl i baratoi ar gyfer adeg ddiweddarach yn eu hoes.





Sut mae hyn yn cefnogi **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

→ **Cymru lewyrchus**

→ **Cymru wydn**

→ **Cymru iachach**

→ **Cymru fwy cyfartal**

→ **Cymru o gymunedau cydlynol**

# 3. Lle – Cefnogi gwytnwch amgylcheddol



Byddwn yn edrych ar ffyrdd y gall partneriaid gydweithio i ddatblygu gwytnwch amgylcheddol yn ein cymunedau. Mae hyn yn cynnwys paratoi ar gyfer, ac addasu i newidiadau lleol yn yr hinsawdd yn y dyfodol, fel llifogydd, a lleihau ein hôl troed carbon ac ecolegol.

## Sut mae pethau

Mae **25,773** o dai mewn parthau llifogydd lle mae risg uchel:



- Mae **23%** o dai yng Nghonwy
- Mae **28%** o dai yn Sir Ddinbych.



Mae **75%** o'n tir yn dir amaethyddol.

**Mae bioamrywiaeth yn dioddef ac yn dirywio, yn cynnwys:**




- **57%** o blanhigion,
- **60%** o loÿnnod byw
- **40%** o rywogaethau adar.

**Economi**
Mae amaethyddiaeth yn cyfrannu tuag at ein heconomi gwledig ac yn cyflogi:

**20%** o bobl yng nghefn gwlad Conwy a
**15%** o bobl yng nghefn gwlad Sir Ddinbych.

**Yn 2015** bu i **15 miliwn** o bobl ymweld â Chonwy a Sir Ddinbych gan ychwanegu **£1.28 biliwn** at yr economi lleol.

**Targed y DU**
Gostyngiad o **80%** mewn nwyon tŷ gwydr erbyn 2050.



## Os na fydd newid

Ni fydd gan ein cymunedau y gwytnwch i ddelio ag effeithiau tywydd eithafol yn sgil newid hinsawdd. Er enghraifft: bydd risg llifogydd yn parhau neu'n cynyddu wrth i ddigwyddiadau tywydd eithafol ddigwydd yn amlach.

Bydd y dirywiad hirdymor mewn bioamrywiaeth yn parhau.

Bydd cynefinoedd yn dioddef, a bydd hynny'n effeithio ar ecosystemau.

Ni fydd sectorau defnydd tir yn gallu ymdopi â bygythiadau newydd, fel plâu ac afiechydon newydd yn lledaenu .

Byddwn yn methu â chyrraedd targedu byd-eang i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Byddwn yn parhau i drosglwyddo amgylchedd naturiol i genedlaethau'r dyfodol sydd mewn gwaeth cyflwr na'r un a etifeddwyd gennym ni.

# Camau Nesaf

## Byddwn yn edrych ar ffyrdd posibl i:

- wella ein ffordd o reoli risgiau llifogydd a digwyddiadau tywydd eithafol eraill
- helpu cymunedau i ddeall gwerth yr amgylchedd naturiol a sut y gallant ychwanegu ato'n bositif
- bod yn arweinwyr ym maes cynaliadwyedd a chefnogi cymunedau i ddatblygu cynlluniau ynni adnewyddadwy
- cael amgylchedd naturiol sy'n llewyrchus a gwydn, a lle mae bywyd gwyllt yn ffynnu
- gweithio gyda chymunedau ar eu cynlluniau bro a'u helpu i ystyried seilwaith gwyrdd
- prynu adnoddau sy'n gynaliadwy ac sydd wedi'u cynhyrchu'n lleol
- esbonio pa mor bwysig ydyw ein bod yn mynd i'r afael â materion amgylcheddol, fel ailgylchu, effeithlonrwydd ynni ac allyriadau carbon
- gwella effeithlonrwydd ynni ein hadeiladau
- cynhyrchu llai o wastraff.




Sut mae hyn yn cefnogi
**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

→ **Cymru wydn**
→ **Cymru iachach**
→ **Cymru fwy cyfartal**
→ **Cymru o gymunedau cydlynol**
→ **Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang**

# Symud ymlaen

Y cam nesaf yw penderfynu pa gamau i'w cymryd i gyflawni ein blaenoriaethau.



## Grwpiau ffocws

Byddwn yn sefydlu grwpiau ffocws ar gyfer y blaenoriaethau. Bydd eu profiad a'u gwybodaeth yn ein helpu i ddatblygu cynllun gweithredu.

Bydd y grwpiau hyn hefyd yn helpu i sicrhau bod pobl mewn cymunedau'n gallu cymryd rhan mewn penderfyniadau a chael llais.

## Gwirio ei fod yn gweithio

Byddwn yn datblygu fframwaith perfformiad. Bydd ganddo ddangosyddion i ddangos i ni pa mor dda yr ydym yn gwneud neu os bydd angen newid rhywbeth.

## Craffu

Craffir ar y gwaith yr ydym yn ei wneud gan Bwyllgor Craffu a Throsolwg ym mhob Awdurdod Lleol:

- **yn Sir Ddinbych gan y Pwyllgor Craffu Partneriaeth**
- **yng Nghonwy gan y Pwyllgor Craffu Cyllid ac Adnoddau.**

## Adrodd

Bydd y partneriaid sy'n gysylltiedig â'r cynllun hwn yn cyflwyno adroddiad rheolaidd i'r Bwrdd. Yna byddwn yn paratoi adroddiad blynyddol.

## Ymuno â'r sgwrs

Mae nifer o bobl drwy Gonwy a Sir Ddinbych eisoes wedi cymryd rhan yn yr Asesiad Lles. Mae hyn wedi ein helpu i ddatblygu'r cynllun hwn.

Rydym am i bobl gael llais. Bydd nifer o ffyrdd i gymryd rhan yn cynnwys ymgynghoriadau, digwyddiadau a gweithgareddau eraill.

Hefyd bydd gennym wefan lle gallwch:


- ddarllen y Cynllun Lles
- darllen yr Asesiad Lles
- gweld cofnodion cyfarfodydd y bwrdd
- darllen newyddlenni
- gweld gwybodaeth am ein partneriaid.

**Gallwch chi hefyd fynychu cyfarfod.**
Cynhelir pob cyfarfod BGC yn gyhoeddus – i gael rhestr o ddyddiadau a lleoliadau ewch i:
(conwyanddenbighshirelsb.org.uk/agendasandminutes)



# Diolch am ddarllen hwn

Y cam nesaf yw penderfynu pa gamau i'w cymryd i gyflawni ein blaenoriaethau.



## Gallwch chi barhau i chwarae rhan a rhannu'ch barn trwy wefan BGC:

[conwyanddenbighshirepsb.org.uk](conwyanddenbighshirepsb.org.uk)

Neu

Swyddog Datblygu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Cyngor Bwrdesietrf Sirol Conwy
Bodlondeb
Conwy
LL32 8DU

01492 574059


Gall pobl sydd â nam ar eu clyw neu eu lleferydd ddeialu **18001** o flaen y rhif sydd ei angen arnynt.

Rydym yn gallu darparu'r ddogfen hon mewn print bras, fersiwn sain neu braille.
Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd yn Saesneg.



# Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych:

# Cynllun Llesiant 2018 - 2023



**Dogfen Dechnegol**

Crynodeb o’r ddogfen ar gael hefyd

# Rhagair

Mae'n fraint gennyf ar ran partneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Conwy a Sir Ddinbych i gyflwyno'r Cynllun Lles ar gyfer ein dwy sir. Dyma ganlyniad y gwaith a ddechreuodd ym mis Ebrill 2016, ac mae'n cynrychioli ein casgliadau ar y pynciau rydym ni'n eu hystyried yn rhai allweddol ac sy'n cyflwyno'r anghenion a'r heriau mwyaf i'n cymunedau. Dyma lle rydym ni'n teimlo y gall y BGC gyfrannu fwyaf heb ailadrodd gwaith da sydd eisoes yn cael ei wneud gan bartneriaethau a sefydliadau sy'n bodoli'n barod.

Yn y ddogfen dechnegol hon rydym wedi amlinellu rhai o'r uchafbwyntiau o'n hasesiad llesiant lleol (sydd i'w weld ar-lein yma) a'r trafodaethau yr ydym wedi'u cael â'n cymunedau a rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r Cynllun Llesiant Lleol. Yna rydym wedi amlinellu'r blaenoriaethau y bydd y BGC yn canolbwyntio arnynt i helpu i fynd i'r afael â materion yr ydym wedi'u hadnabod. Mae'r ddogfen dechnegol wedi'i chefnogi gyda chrynodeb o'r cynllun.

Mae llawer o waith wedi'i wneud yn barod i gyrraedd y pwynt yma, ond mae llawer mwy i'w wneud gyda'r BGC. Mae'r Cynllun Llesiant Lleol yn amlinelliad o'r hyn yr hoffem ei gyflawni, ond mae angen gwneud mwy i ddatblygu ein rhaglen waith a byddwn yn croesawu eich cyfraniad i'r rhan hwn o'n trafodaethau parhaus â'n cymunedau. Os hoffech dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith, i fod yn rhan o'r broses neu i roi adborth i ni yna defnyddiwch y manylion cyswllt ar dudalen olaf y ddogfen hon.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi rhoi cyfle cyffrous i wasanaethau cyhoeddus i ddod ynghyd i herio problemau difrifol yn ein cymunedau. Wrth gwrs mae'n rhaid i ni fod yn realistig am y cyfyngiadau ariannol y mae ein sectorau yn eu hwynebu, ond ar yr un pryd dylem ei weld fel cyfle i ddylanwadu newid go iawn ac i fod yn agored i weithio mewn ffyrdd gwahanol. Mae'r holl bartneriaid yn hapus i ymrwymo eu hunain i gydweithio er mwyn darparu gwasanaethau cynaliadwy ac effeithiol sy'n osgoi problemau yn y tymor hir. Rydym eisiau cefnogi ein cymunedau i fod yn fwy iach, cadarn a llewyrchus. Rydym eisiau cyfrannu at weledigaeth Llywodraeth Cymru i gael Cymru fwy cyfartal a chyfrifol am y byd, lle mae gennym gymunedau cydlynol a diwylliant bywiog.



**Bethan Jones, Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych**

# Ynglŷn â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych

Yn Ebrill 2016, sefydlodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fwrdd statudol, a elwir yn Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ymhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Mae Conwy a Sir Ddinbych wedi defnyddio grym o fewn y Ddeddf i uno eu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn un Bwrdd ar gyfer rhanbarth Conwy a Sir Ddinbych.

Mae'r Bwrdd yn gasgliad o gyrff cyhoeddus sy'n cydweithio i wella lles eu siroedd. Mae hyn yn golygu fel grŵp bod yn rhaid i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ardaloedd Conwy a Sir Ddinbych drwy weithio i gyflawni'r 7 nod Lles.

Mae Aelodaeth yn cynnwys uwch gynrychiolwyr o'r sefydliadau y rhestrir isod. Fodd bynnag bydd aelodaeth yn cael ei adolygu yn rheolaidd i sicrhau bod cynrychiolaeth ddigonol i gyflawni'r blaenoriaethau.

Mae gennym wefan pwrpasol hefyd lle gall y cyhoedd gael mynediad i'r Asesiad a Chynllun Llesiant Lleol, yn ogystal â chofnodion cyfarfodydd, papurau cyfarfodydd bwrdd, newyddlenni ac i ganfod mwy o wybodaeth am ein partneriaid.

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Cefnogaeth Gymundedol a Gwirfoddol Conwy
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Sir Ddinbych
- Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
- Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Heddlu Gogledd Cymru
- Swyddfa Commisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Llywodraeth Cymru

# Sut mae'r Cynllun Llesiant wedi'i ddatblygu?

Mae cam cyntaf yn natblygiad y Cynllun Llesiant yn cynnwys aelodau o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych yn cydweithio ar ddatblygu'r Asesiad Llesiant ar gyfer yr ardal, syddl i'w weld ar-lein yma. Rydym wedi defnyddio'r dull ar y cyd hwn er mwyn sicrhau fod yr asesiad yn cael ei ddatblygu yn defnyddio arbenigedd, gwybodaeth a mewnwelediad gan yr holl sefydliadau.

Nod yr asesiad yw nodi cryfderau a nodweddion cadarnhaol am bobl, cymunedau a lleoedd Conwy a Sir Ddinbych, yn ogystal â disgrifio'r heriau a'r cyfleoedd sy'n eu hwynebu nawr ac yn y dyfodol. Mae'r asesiad wedi defnyddio data, ymchwil lleol a chenedlaethol ac yn fwy pwysig adborth gan breswylwyr, ymwelwyr a busnesau drwy **'Sgwrs y Sir'** yn ystod haf a hydref 2016. Casglwyd y wybodaeth ar ran sefydliadau'r sector gyhoeddus ar draws Conwy a Sir Ddinbych.

Yn ystod haf 2016 siaradwyd â chynifer o bobl â phosibl i ganfod eu barn am beth sy'n gweithio'n dda yng Nghonwy a Sir Ddinbych ac ar beth y mae angen i ni ganolbwyntio nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Gofynnwyd i bobl siarad am eu profiadau a'u cymunedau er mwyn i ni ddeall ychydig mwy am bryderon a chryfderau lleol. Trafodwyd â chroestoriad eang o'r gymuned, gan gynnwys:

- Amryw o grwpiau a fforymau cymunedol yn ymdrin ag amrywiaeth o ddiddordebau cymunedol mewn cymysgedd o leoliadau trefol a gwledig
- Preswylwyr
- Plant ag anableddau
- Rhwydweithiau busnes
- Grwpiau ffydd
- Cynghorau Tref a Chymuned
- Pobl ifanc (trwy gynghorau ysgol ieuenctid)
- Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru
- Sefydliadau partner sector cyhoeddus eraill

Yn ogystal ag ymrwymo â'r grwpiau uchod, rydym wedi defnyddio amryw o ddulliau cyfathrebu gan gynnwys -

- Hyrwyddo'r Trafodaeth Sirol trwy aelodau staff a thrwy sianeli mewnol partneriaid a staff fel Bwletin Conwy, newyddlen Llais y Sir gan Sir Ddinbych, e-fwletinau Busnes a rhestrau postio.



- Defnyddiwyd cyfryngau cymdeithasol a datganiadau i'r wasg i hyrwyddo Sgwrs y Sir ac i ddiweddaru pobl am y sylwadau yr ydym yn ei dderbyn ac i alluogi pobl i lenwi holiaduron ar-lein.

Fe wnaethom fonitro Sgwrs y Sir er mwyn sicrhau ein bod wedi derbyn adborth o bob ystod oedran, pob ardal ddaearyddol o'r sir a phob maes pwnc (gweler atodiad A). Er ein bod yn hyderus ein bod wedi estyn allan at drawstoriad eang o'r gymuned, o ran daearyddiaeth a nodweddion a ddiogelir, rydym yn teimlo y gallwn wneud mwy wrth i Sgwrs y Sir ddatblygu dros y blynyddoedd nesaf i wella pa mor drylwyr y byddwn yn ymgynghori â rhai grwpiau o bobl, sydd o bosib wedi cael eu tangynrychioli.

Ar ddechrau 2017 cychwynnwyd trafod darganfyddiadau'r asesiad lles mewn mwy o fanylder, a nodi'r achosion strategol lle gallwn ar y cyd wneud gwahaniaeth. O'r dadansoddiad, daeth y bwrdd i fyny â rhestr hir o achosion strategol. Cynhaliwyd cyfres o weithdai yn haf 2017 gyda nifer o randdeiliaid er mwyn archwilio materion yn fwy manwl. Mae'r gweithdai hyn wedi ein helpu i flaenoriaethu meysydd o'r angen mwyaf ynghyd â themâu Cymdeithasol, Diwylliannol, Amgylcheddol ac Economaidd, ac i ddatblygu atebion posib. O ganlyniad i'r gwaith, ysgrifennwyd cynllun llesiant drafft.

Ymgynghorwyd ar y cynllun drafft rhwng Hydref 2017 ac Ionawr 2018. Cynhaliwyd gweithdy arall ym mis Ionawr 2018 lle bûm yn dadansoddi'r adborth. Gwnaed hynny wrth ystyried y synergeddau rhwng blaenoriaethau, yr effaith y byddai BGC yn ei gael, goblygiadau hir dymor a lle mae gwaith yn ei le yn barod ar gyfer y flaenoriaeth (i osgoi dyblygu). Hyn yn golygu ailddiffinio'r cynllun yn 3 blaenoriaeth sydd yn gysylltiedig â **Phobl, Cymunedau a Lle.** Mae'r 3 blaenoriaethau yn cynnwys y 6 blaenoriaethau a ddrafftiwyd yn flaenorol gan y cytunwyd bod yr achosion yn cydgysylltu ac ni ellir edrych arnynt ar wahân.

# Egwyddorion

Datblygu Cynaliadwy <http://thewaleswewant.co.uk/ways-working> yw'r brif egwyddor o weithgareddau BGC Conwy a Sir Ddinbych. Mae hyn yn golygu gweithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau fod anghenion presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Rydym hefyd wedi ymrwymo i ddefnyddio'r 5 dull o weithio (cydweithio, atal, integreiddio, hir dymor ac ymrwymiad) i gyflawni blaenoriaethau Llesiant.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i 4 egwyddor ychwanegol sy'n cefnogi'r blaenoriaethau. Sef:

- I fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac i drin pawb yn gyfartal
- I gynllunio a hyrwyddo Iaith Gymraeg
- I gefnogi mynediad i lety priodol
- Osgoi dyblygu

Mae blaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi canolbwyntio ar agweddau ar y cyd gan wneud gwahaniaeth a chael effaith mwy hirdymor. Nid ydym yn dymuno dyblygu gwaith. Mae ein blaenoriaethau yn seiliedig ar ddadansoddiad o fyrddau partneriaeth eraill sydd yn gweithio yn barod i wella rhanbarth Gogledd Cymru. Mae'r byrddau partneriaeth yn cynnwys ffocws ar addysg, diogelwch cymunedol, twf economaidd a llesiant. Amlinelliad o dirwedd partneriaeth Gogledd Cymru wedi'i gynnwys yn atodiad B.

# Pobl – Lles meddyliol da ar gyfer pob oedran

Bydd y flaenoriaeth yn canolbwyntio ar y ffyrdd y gallwn gydweithio i sicrhau fod pobl o bob oedran yn mwynhau lles meddyliol da. Mae hynny'n bwysig fel bod holl genedlaethau'r dyfodol -

- gyda gwell cyfle o wireddu eu potensial unigol;
- gyda'r gallu i ymdopi â phwysau arferol sydd i'w cael mewn bywyd;
- yn gallu gweithio'n gynhyrchiol;
- yn gwneud pethau sy'n gwell eu llesiant;
- yn gallu gwneud cyfraniad cadarnhaol i'w cymuned;
- gyda'r gwybodaeth a'r dulliau sydd eu hangen arnynt i fod yn annibynnol cyn hired â phosib yn eu blynyddoedd hŷn, ac
- yn ymwybodol o ddewisiadau eu hunain ac i gymryd cyfrifoldeb personol am iechyd a lles ei hunain

## Beth mae ein Hasesiad Llesiant a Llais y Sir yn ei ddweud wrthym?

- Amcangyfrifir y bydd 1 o bob 4 person yn y DU yn profi problem iechyd meddwl bob blwyddyn.
- Y problemau iechyd meddwl mwyaf cyffredin yn y DU yw gorbryder ac iselder.
- Mae oddeutu 9.8% o boblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy a 11.6% o boblogaeth Sir Ddinbych yn adrodd eu bod yn cael eu trin ar gyfer salwch meddwl – y cyfartaledd i Gymru yw oddeutu 12.1%.
- Mae cyfran fawr o'r ymweliadau i'r Adrannau Argyfwng a derbyniadau cyffredinol i ysbytai yn gysylltiedig â phroblemau iechyd meddwl.
- Mae cyfraddau hunanladdiad yng Nghonwy a Sir Ddinbych yn uwch o'i gymharu â rhannau eraill o Gymru.
- Mae nifer yr asesiadau o hunan-niweidio ar gyfer plant a phobl ifanc yng Ngogledd Cymru wedi dyblu a mwy rhwng 2012/13 a 2015/16.
- I bobl ifanc o dan 18 oed mae'r gyfradd o unigolion â phroblemau iechyd meddwl yng Ngogledd Cymru yn 30% yn uwch na Chymru.
- Mae gormod o bwyslais yn cael ei roi ar gyflawni targedau yn hytrach na meithrin hyder ac uchelgais yn ein pobl ifanc.
- Mae angen buddsoddi mwy o adnoddau mewn addysg sy'n dysgu sgiliau byw a chymdeithasol (h.y. lles meddyliol ac emosiynol, ymwybyddiaeth ariannol a maeth).
- Mae iechyd meddwl cadarn yn rhan bwysig o ddatblygiad pobl ifanc ac yn addasiad cadarnhaol er mwyn galluogi pobl i ymdopi, ffynnu a phrofi iechyd a chanlyniadau cymdeithasol da.
- Mae angen cefnogi entrepreneuriaeth yn well ac annog cyfrifoldeb cymdeithasol.
- Cododd cyfanswm pobl gyda dementia wedi cofrestru gyda meddygfeydd yng Nghonwy a Sir Ddinbych o 1,700 claf yn 2011 i 2,050 claf yn 2016.



## Pam fod lles meddyliol yn flaenoriaeth i ni...

- Bydd nifer y bobl ag iechyd meddwl gwael yn codi oddeutu 1,000 erbyn 2035.
- Byddwn yn colli cyfleoedd i gamu mewn yn gynnar ac i osgoi achosion rhag gwaethygu.
- Bydd mwy o achosion i deuluoedd a gwasanaethau i ddelio â nhw.
- Bydd lles ein pobl ifanc yn gwaethygu.

## Camau Nesaf – Byddwn yn archwilio ffyrdd o...

| Tymor Byr (1 - 5 mlynedd) | Tymor Canolig (1 - 15 mlynedd) | Hirdymor (1 - 20 mlynedd) |
| --- | --- | --- |
| • Parhau i ganolbwyntio ar gefnogaeth i ofalwyr di-dâl<br>• Cydlynu cymorth i rieni i roi i'w plant ar gyfer y dechrau gorau mewn bywyd<br>• Annog sefydliadau BGC i gyflwyno hyfforddiant iechyd meddyliol i'w gweithlu (fel cyfeillion dementia a Chymorth Cyntaf iechyd meddyliol)<br>• Archwilio gweithgareddau rhyng-genedlaethau<br>• Hwb i wasanaethau gwirfoddol gan ddefnyddio pobl gyda'r galluoedd priodol | • Helpu pobl ifanc i ddatblygu ymddygiadau a sgiliau bywyd ymarferol sy'n cyfrannu at iechyd a lles da<br>• Gwneud y mwyaf o'r amgylchedd ac annog iechyd meddyliol cadarnhaol<br>• Gwneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer penodi cymdeithasol | • Datblygu modelau newydd i hyrwyddo iechyd a lles fel bod pobl o bob oedran yn dibynnu llai ar iechyd a gofal cymdeithasol. |

## Os byddwn yn canolbwyntio ar y flaenoriaeth hon rŵan, yn y dyfodol gallwn.....

- Gael mwy o bobl yn profi iechyd meddyliol da a llai o bobl yn dioddef o bryder ac iselder.
- Llai o hunan niweidio a chyfraddau is o hunanladdiad.
- Llai o stigma am iechyd meddyliol.

## Synergedd gyda'n blaenoriaethau llesiant eraill.........

✓ **Ymrymuso'r Gymuned –** cydweithio i sicrhau bod gennym gymunedau cryf sy'n ffynnu ar draws Conwy a Sir Ddinbych.


✓ **Gwydnwch Amgylcheddol –** cydweithio i sicrhau fod ein cymunedau wedi cael eu paratoi ar gyfer newidiadau yn yr hinsawdd lleol yn y dyfodol fel llifogydd ac effeithiau carbon.

# Cymuned – Ymrymuso'r Gymuned

Bydd y flaenoriaeth yn edrych ar ffyrdd y gallwn gydweithio i ymrymuso cymunedau. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn hinsawdd lle mae lleihad mewn cyllid gyda gwytnwch cymunedau yn chwarae rôl bwysicach. Byddwn yn cefnogi cymunedau trwy weithio gyda nhw i ddatblygu'r sgiliau, strwythurau a gwybodaeth sydd ei angen i ddatblygu eu cymuned i gwrdd â'u hanghenion lleol.

## Beth mae ein Hasesiad Llesiant a Llais y Sir yn ei ddweud wrthym?

- Mae 25% o'r boblogaeth dros 65 oed, mae hynny'n llawer uwch na chyfartaledd Cymru o 20% a chyfartaledd y DU o 18%.
- Mae 27% o'n poblogaeth yn 25 oed neu iau, erbyn 2039 mae disgwyl y bydd llai o bobl ifanc yn byw yma (ar 25%) - gan gynyddu'r bwlch strwythur oedran sydd gennym ar gyfer oedrannau o tua 18 i 40.
- 3,500 o bobl rhwng 15-29 oed yn gadael yr ardal bob blwyddyn, gyda dim ond 3,000 yn symud i mewn ac mae hynny'n dangos y duedd tuag at grwpiau oedran hŷn o fewn ein poblogaeth – pobl ifanc yn gadael am gyflogaeth, dysgu, ffordd o fyw neu resymau tai.
- Un o bob chwech aelwyd yn cael ei meddiannu gan bensiynwr sengl.
- 40.9% o gartrefi pensiynwyr preifat ddim yn berchen ar gar, hynny'n peri risg o arwahanrwydd, methu mynychu apwyntiadau, siopa neu weithgareddau hamdden.
- Disgwyliad oes yn cynyddu, yn ogystal â % yr henoed yn ein cymunedau.
- Mae codiad mewn gofal di-dâl ar draws y Deyrnas Unedig. Gofal di-dâl yn werth £132 biliwn y flwyddyn.
- O'i gymharu ag ardaloedd eraill o'r DU, mae gan Gonwy a Sir Ddinbych gyfraddau isel o drosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, er yn achos Sir Ddinbych mae ardaloedd gyda chyfraddau uwch o fewn rhannau o'r Rhyl.
- Mae Trais Domestig yn parhau i fod yn her allweddol i ddiogelwch personol yn ogystal â chael effaith ar gymunedau ac yn achos bwysig yng nghyd-destun agenda Profiadau Niweidiol Yn Ystod Plentyndod (PNP).
- Dim ond 27% o boblogaeth Conwy a Sir Ddinbych sy'n teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol – er mae hynny'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru o 21%.
- Cymunedau yn gweld gwerth asedau ffisegol lleol er mwyn dod â phobl ynghyd ac i feithrin hunaniaeth gymunedol.
- Mae parodrwydd o fewn cymunedau i archwilio trefniadau perchnogaeth / rheoli eraill. Mae preswylwyr yn teimlo yr hoffent weld mwy o asedau yn cael eu rhedeg gan y gymuned ar draws y sir, gyda gwell mynediad a chyfleusterau i'w gwneud yn lleoliadau amlbwrpas a hunangynhaliol.
- Pobl yn gwerthfawrogi ymgysylltu â'r gymuned, gwirfoddoli a gwasanaethau lleol yn hyrwyddo lles ac annibyniaeth.
- Angen mwy o gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau rhyng-genedlaethau mewn cymunedau lleol fel bod pobl yn gallu cadw cysylltiad â chadw'n ffit – gweld gwirfoddoli fel ffordd o wneud hyn.
- Pobl ifanc yn teimlo'n rhwystredig gan fod gwirfoddoli heb ei gydlynu.
- Rydym angen dros 400 o gartrefi bob blwyddyn - 314 wedi'u hadeiladu yn 2016.



## Pam fod ymrymuso'r gymuned yn flaenoriaeth i ni...

- Partneriaid Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Unigol wedi gwneud llawer iawn ar y pwnc cydnerthu cymunedol. Mae canlyniad hyn wedi bod, er hynny, yn gymysg o ran llwyddiant, ac rydym yn adnabod drwy gydweithio y gallwn gymryd dull mwy strategol i ymrymuso'r gymuned ac i wneud defnydd gwell o adnoddau ar y cyd.

## Camau Nesaf – Byddwn yn archwilio ffyrdd o...

| Tymor Byr (1 - 5 mlynedd) | Tymor Canolig (1 - 15 mlynedd) | Hirdymor (1 - 20 mlynedd) |
| --- | --- | --- |
| • Cefnogi pobl i gynllunio a siapio eu cymunedau<br>• Targedu yr unigolion hynny sydd wedi eu diystyru yn ddigidol fel bod ganddynt y sgiliau a'r gallu i ddefnyddio gwasanaethau digidol<br>• Mentora a rhoi cyngor gyrfaoedd effeithiol i bobl ifanc<br>• Cynnig y cyfle i bobl ifanc ddatblygu eu sgiliau bywyd a gwaith trwy gyfleoedd gwirfoddoli a phrofiad gwaith defnyddiol | • Galluogi pobl i deithio i waith, addysg a gwasanaethau<br>• Gwneud band eang cyflym iawn a rhwydweithiau ffonau symudol ar gael i bawb<br>• Cefnogi pobl ifanc a hen i gael mynediad i lety priodol y gallent ei fforddio<br>• Cefnogi pobl i baratoi ar gyfer eu blynyddoedd hwyrach mewn bywyd | • Darparu rhagor o gartrefi ar draws Conwy a Sir Ddinbych |

## Os y byddwn yn canolbwyntio ar y flaenoriaeth hon rŵan, yn y dyfodol gallwn gael.....

- Grwpiau cymuned ac asedau sy'n ffynnu ac yn cwrdd ag anghenion lleol.
- Gwasanaethau sy'n gweithio gyda'i gilydd yn well.
- Gwasanaeth yn darparu gwell gwerth am arian.
- Pobl yn cymryd rhan ac yn dweud eu barn wrth wella gwasanaethau.

## Synergedd gyda blaenoriaethau llesiant eraill -

✓ **Lles Meddyliol Da** - cydweithio i sicrhau fod pobl o bob oedran yn mwynhau lles meddyliol da

✓ **Gwydnwch Amgylcheddol** – cydweithio i sicrhau fod ein cymunedau wedi cael eu paratoi ar gyfer newidiadau yn yr hinsawdd lleol yn y dyfodol fel llifogydd ac effeithiau carbon.

# Lle – Cadernid Amgylcheddol

Bydd y flaenoriaeth yn edrych ar ffyrdd y gall partneriaid gydweithio i ddatblygu gwydnwch amgylcheddol yn ein cymunedau. Mae'r flaenoriaeth yn ystyried sawl agwedd o wydnwch amgylcheddol gan gynnwys yr angen i baratoi ac addasu yn well, ar lefel lleol, i effeithiau newid hinsawdd h.y. llifogydd, a sut y gallwn gydweithio i fynd i'r afael ag achosion eraill o flaenoriaeth o bryder amgylcheddol fel lleihau ein ôl troed carbon ac ecolegol.

## Beth mae ein Hasesiad Llesiant a Llais y Sir yn ei ddweud wrthym?

- Mae'r bygythiad o lifogydd a rheoli dŵr yn fater amgylcheddol allweddol yng Nghonwy a Sir Ddinbych.
- Mae oddeutu 12,500 o eiddo mewn risg sylweddol o lifogydd a 21,000 mewn risg isel neu ganolig.
- Mae 75% o'n tir yn amaethyddol sydd yn bennaf yn cael ei reoli gan ffermwyr.
- Yn bennaf y tu allan i'r safleoedd dynodedig, mae coetiroedd yn gorchuddio 13.5% o Sir Conwy a Sir Ddinbych - yn debyg i gyfartaledd Cymru.
- Mae'r ddwy sir yn dibynnu'n sylweddol ar yr amgylchedd naturiol mewn sawl agwedd. Er enghraifft, mae amaethyddiaeth a thwristiaeth yn yrwyr economaidd sylweddol sy'n dibynnu ar, ac yn gallu cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd naturiol - 15 miliwn o bobl wedi ymweld â Chonwy a Sir Ddinbych gan ychwanegu £1.28 biliwn i'r economi leol.
- Mae hyn yn cyfrif ar gyfer 20% o'r unigolion o oedran gwaith yng Nghonwy wledig a dros 15% yn ardaloedd gwledig Sir Ddinbych.
- Mae bioamrywiaeth yn dioddef ac yn dirywio gan gynnwys -
  - 57% o blanhigion
  - 60% o loÿnnod byw
  - 40% rhywogaethau adar
- Angen gwneud mwy i annog pobl iau i chwarae eu rhan gyda'r amgylchedd ac y dylid cefnogi cymunedau i helpu i ddiogelu'r amgylchedd.
- Pobl yn bryderus na ddylid gor-ddatblygu (yn enwedig o ran adeiladu tai) a'n bod yn cydbwyso cadwraeth natur a datblygu gan ddiogelu'r hyn sy'n brin ac yn unigryw.
- Allyriadau Carbon yn codi – mae gan y DU darged i leihau allyriadau nwy tŷ gwydr o 80% erbyn 2050.
- Tlodi tanwydd yn effeithio 7,600 o gartrefi yn y rhanbarth.
- Rydym angen newid y ffordd yr ydym yn edrych ar yr amgylchedd naturiol mewn ffyrdd traddodiadol (mewn seilo) a deall ei bwysigrwydd sylfaenol mewn cyflawni buddion ehangach mewn cymdeithas h.y. helpu i leihau'r effeithiau o newid hinsawdd, gwella iechyd.



## Pam fod cadernid amgylcheddol yn flaenoriaeth i ni...

- Mae cael amgylchedd naturiol iach a chadarn yn hanfodol i gyflawni buddion amgylcheddol, economaidd, diwylliannol a iechyd mwyaf ar gyfer cymunedau Conwy a Sir Ddinbych.

## Camau Nesaf – Byddwn yn archwilio ffyrdd o...

| Tymor Byr (1 - 5 mlynedd) | Tymor Canolig (1 - 15 mlynedd) | Hirdymor (1 - 20 mlynedd) |
|---|---|---|
| • Sicrhau fod gennym gymunedau sy'n deall gwerth yr amgylchedd naturiol a sut y gallent gyfrannu'n gadarnhaol<br>• Canolbwyntio ar gaffael cynaliadwy a chynnyrch lleol<br>• Hyrwyddo'r pwysigrwydd o fynd i'r afael â materion amgylcheddol h.y. ailgylchu, effeithiolrwydd ynni, allyriadau carbon<br>• Gwella effeithiolrwydd ynni ein hadeiladau | • Cael cymunedau sydd wedi paratoi'n well ar gyfer tywydd eithafol<br>• Cynhyrchu llai o wastraff<br>• Gweithio ar lefel cymunedol i wella isadeiledd gwyrdd sy'n gallu gwella'r amgylchedd naturiol a lles y gymuned<br>• Cael ein gweld fel arweinwyr o gynaliadwyedd fel cefnogi datblygiad cynlluniau ynni adnewyddadwy dan arweiniad cymunedau | • Annog amgylchedd naturiol gadarn sy'n ffynnu, a lle mae bywyd gwyllt yn ffynnu |

## Os byddwn yn canolbwyntio ar y flaenoriaeth hon rŵan, yn y dyfodol gallwn...

- Cymunedau sy'n deall a gwerthfawrogi pwysigrwydd yr amgylchedd naturiol a'r gwasanaethau hanfodol y mae'n ei ddarparu i gymdeithas.
- Amgylchedd naturiol sy'n cael ei reoli mewn ffordd cynaliadwy a tra bod bywyd gwyllt a natur yn blodeuo.
- Amgylchedd naturiol sy'n darparu'r buddion mwyaf i'n preswylwyr ar draws y sbectrwm cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol.

## Synergedd gyda blaenoriaethau llesiant eraill -

✓ **Lles Meddyliol Da** - cydweithio i sicrhau fod pobl o bob oedran yn mwynhau lles meddyliol da.

✓ **Ymrymuso'r Gymuned** – cydweithio i sicrhau bod gennym gymunedau cryf sy'n ffynnu ar draws Conwy a Sir Ddinbych.

# Sut y byddwn yn cynllunio i ddatblygu'r camau gweithredu hyn

Y cam nesaf o ddatblygiad y Cynllun Llesiant yw sefydlu grwpiau cyfeirio ar gyfer pob un o'r blaenoriaethau i'n cefnogi i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer y Cynllun Llesiant. Rydym wedi bod mewn trafodaethau rheolaidd gyda Swyddfa Comisiynydd Lles Cenedlaethau'r Dyfodol ac wedi derbyn adborth adeiladol ar y cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yma. Rydym hefyd wedi adolygu y sylwadau lleol a dderbyniwyd, yr Adroddiad Cenedlaethol a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Comisiynydd 'Gweithredu Heddiw ar gyfer Gwell Yfory' a gohebiaeth wedi'i dderbyn gan Gomisiynwyr eraill.

Rydym wedi ymrwymo i lawer iawn o agweddau yn barod er mwyn deall sylwadau dinasyddion a chymunedau, ond rydym yn cydnabod ein bod angen sefydlu trafodaeth barhaus ac i wneud mwy o waith i ddeall hyd yn oed yn well y 'profiad o fyw' yn ein cymunedau. Mae cam nesaf y Cynllun Llesiant angen edrych ar, a defnyddio data ansoddol o leoliadau er mwyn gwella dealltwriaeth y Bwrdd o'r ardaloedd cymunedol. Dim ond trwy edrych ar y ddarpariaeth gwasanaeth o safbwyntiau gwahanol y gallwn wir ystyried y cyfleoedd ar gyfer lles a'r heriau yr ydym angen rhoi sylw iddynt. Byddwn yn gweithio gyda grwpiau cyfeiriad i ddatblygu cynlluniau gweithredu mwy manwl sy'n gallu ystyried camau gweithredu yn y cyfnod byr, canolig a hir sydd eu hangen i gyflawni'r dyfodol yr ydym yn dyheu amdano. Bydd y cynllun gweithredu yn defnyddio'r 5 ffordd o weithio o fewn y Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2017 yn cynnwys - **hirdymor; ataliad; integreiddio; cydweithio** ac **ymglymiad.** Mae'n bwysig bod y camau gweithredu sy'n cael eu datblygu yn herio busnes fel arfer, yn archwilio tensiynau polisi, yn ymchwilio arfer da ac yn datblygu dulliau newydd.

Rydym hefyd angen deall y data a thueddiadau'r dyfodol yn well ar gyfer y blaenoriaethau llesiant a nodwyd. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall y sefyllfa bresennol a graddfa a natur yr ymateb sydd ei angen. Byddwn yn defnyddio'r adroddiad tueddiadau'r dyfodol a gyhoeddwyd yn ddiweddar i ystyried y tueddiadau disgwyliedig yn y rhanbarth.

# Datganiad Llesiant

Bydd amcanion llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych yn cyfrannu at lwyddiant targedau llesiant cenedlaethol am eu bod wedi cael eu datblygu a'u blaenoriaethu trwy archwilio gwybodaeth leol mewn perthynas â phob targed llesiant cenedlaethol, ac yn chwilio am safbwyntiau lleol ar flaenoriaethau ar gyfer cyflawni llesiant cymunedol yn unol â'r targedau cenedlaethol. Mae hyn yn rhoi hyder i ni ein bod yn defnyddio ein hadnoddau ar gyflawni canlyniadau a fydd o'r budd mwyaf i'n cymunedau. Gweler atodiad C sy'n darparu manylion pellach ar sut yr ydym yn credu y bydd ein Blaenoriaethau Llesiant yn cyfrannu at ofynion y Ddeddf.

Mae'r egwyddorion datblygu cynaliadwy yn ganolog i'r gwaith a wnaed i adnabod ein blaenoriaethau, ac yn ganolog i'r cam cynllunio wrth i ni gytuno ar ba gamau gweithredu i'w cymryd wrth gefnogi pob blaenoriaeth. Wrth ddatblygu ein blaenoriaethau, canolbwyntiwyd ar yr hirdymor trwy edrych ar dueddiadau data ar gyfer y gorffennol, presennol a'r dyfodol (a ragwelir) a hefyd trwy drafod dyheadau hirdymor ymgyngoreion ar gyfer pob targed. Mae edrych ar dueddiadau'r dyfodol - ac ystyried risgiau a chyfleoedd cysylltiedig – wedi ein galluogi i gyfeirio at yr egwyddor **atal**. Mae **ymrwymiad** yn egwyddor yriannol allweddol. Rydym wedi buddsoddi llawer o amser yn cynnal trafodaethau gyda'n cymunedau yn ogystal â gweithdai â ffocws iddynt gyda phobl broffesiynol. Rydym wedi ymdrechu i gael y rhain i gynrychioli ein hardaloedd cymunedol (adlewyrchu oedran, rhyw, statws cymdeithasol, galwedigaethau ac ati), a hefyd wedi comisiynu gwaith ymgynghori ar y cyd yn rhanbarthol (**cydweithio**) gyda grwpiau anodd eu cyrraedd.

Bydd yr egwyddorion hyn yn ganolog i'r broses o gynllunio ein camau gweithredu i gefnogi ein amcanion llesiant. Mae angen **cydweithio** wrth gyflawni amcanion a ni ddylai partner o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wneud hynny'n unigol. Byddwn yn ffurfio grwpiau cyfeirio ar gyfer pob amcan. Bydd y grwpiau hyn yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol sydd yn fwyaf tebygol o fod yn bobl broffesiynol ond hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth gan ddefnyddwyr gwasanaeth.

Nid yw'n bosibl eto i fod yn benodol am pryd y bydd yr amcanion hyn yn cael eu cyflawni ond bydd cynllunio manwl yn cael ei wneud yn ystod 2018 / 2019. Dylid nodi serch hynny na fydd yr amcanion hyn o natur tymor byr felly bydd y gwaith o'u cyflawni yn cael ei wneud dros y tymor canolig/hir.

# Cyflawni'r cynllun a monitro cynnydd

Bydd y gwaith o gyflawni'r Cynllun yn cael ei fonitro gan y BGC trwy adroddiadau amlygu a chynnydd rheolaidd am flaenoriaethau Llesiant BGC wedi eu cyflwyno i'r Bwrdd. Bydd fframwaith rheoli perfformiad yn cael ei ddatblygu i gyflawni Blaenoriaethau Llesiant.

Byddwn yn dylunio dangosyddion sydd yn addas i'r Cynllun Llesiant ac yn berthnasol i'n hardal leol gan ddefnyddio Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol a osodwyd trwy'r Ddeddf fel man cychwyn. Gyda'i gilydd byddant yn ein helpu i werthuso a diffinio ein cynllun a'n dulliau gweithio.

## Archwilio

Wrth ddrafftio'r Cynllun Llesiant mae BGC Conwy a Sir Ddinbych yn parhau i gael ei archwilio gan y pwyllgor Craffu a Throsolwg ym mhob Awdurdod Lleol – yn Sir Ddinbych mae hynny'n cael ei wneud gan y Pwyllgor Craffu Partneriaeth ac yng Nghonwy gan y Pwyllgor Craffu Cyllid ac Adnoddau. Mae'r pwyllgorau craffu dynodedig i gyd yn gyfrifol am gymryd golwg cyffredinol o effeithiolrwydd BGC Conwy a Sir Ddinbych trwy adolygu neu graffu'r penderfyniadau a wneir neu'r camau gweithredu y bydd y Bwrdd yn eu cymryd; a thrwy adolygu neu graffu trefniadau llywodraethu'r Bwrdd.

Fodd bynnag gall y trefniadau craffu hyn newid yn ystod oes y Cynllun Llesiant gan fod trafodaethau yn cael eu cynnal ynglŷn ag os mai dyma'r trefniant mwyaf priodol ar gyfer y bwrdd.

## Adroddiad Blynyddol

Fel rhan o'n trefniadau monitro byddwn yn llunio Adroddiad Blynyddol yn manylu'r cynnydd a wnaed gan y BGC i gyflwyno a chyflawni bob un o'u blaenoriaethau Llesiant.

# Trafodaeth Barhaus

Yn ystod datblygu'r asesiad Llesiant, mae ymrwymo trwy Lais y Sir yn ffordd bwysig o hel safbwyntiau gan y cymunedau lleol ar lesiant. Rydym eisiau parhau i ymrwymo mewn perthynas pwrpasol gyda phobl a chymunedau ar draws Conwy a Sir Ddinbych yn ogystal â gweithluoedd ein holl sefydliadau. Mae'n hanfodol ein bod yn ystyried pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau lles, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth yr ardal y mae'r Bwrdd yn ei gwasanaethu.

Byddwn yn cymryd camau ychwanegol y tu allan i gyfarfodydd i sicrhau ein bod yn gwrando ar lais y cyhoedd a'r llais proffesiynol i'n helpu i lunio'r cynllun llesiant wrth symud ymlaen. Bydd hynny'n cynnwys ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu a fydd yn cynnig cyfleoedd i bobl leisio a thrafod syniadau trwy drefniadau digidol ac ymrwymiad cyhoeddus /proffesiynol. Bydd llunio grwpiau cyfeirio ar gyfer pob blaenoriaeth yn sicrhau ymrwymiad arwyddocaol gyda'r pobl cywir. Bydd y grwpiau hefyd yn ystyried safbwyntiau arbenigwyr yn y meysydd priodol yn ogystal â dysgu o arferion da eraill i ysbrydoli gwaith y BGC.

Rydym wedi datblygu cynllun cyfathrebu i sicrhau fod pobl, sefydliadau a phartneriaethau allweddol yn cael gwybod am ddatblygiadau'r BGC.

Mae gan BGC Conwy a Sir Ddinbych wefan arbennig, lle gall y cyhoedd gael mynediad i'r Asesiad a Chynllun Llesiant, yn ogystal â chofnodion cyfarfodydd, papurau cyfarfodydd bwrdd, newyddlenni ac i ganfod mwy o wybodaeth am ein partneriaid. Mae ein holl gyfarfodydd ffurfiol wedi eu cynnal yn gyhoeddus ac yn agored i unrhyw un eu harsylwi. I gael rhestr o'r dyddiadau a lleoliadau, ewch i wefan BGC.

Yn ogystal mae gan bob sefydliad partner BGC fecanwaith ei hun ar gyfer ymrwymo gan gynnwys ymrwymiad ddigidol trwy gyfryngau cymdeithasol. Mae BGC wedi ymrwymo i rannu negeseuon allweddol rhwng sefydliadau'r BGC ar ymrwymiad mewnol yn ogystal â hyrwyddo gweithgareddau BGC.

# Cysylltu â Ni

Am fwy o wybodaeth ar ein Cynllun Llesiant neu ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych yn gyffredinol cysylltwch â ni ar -

Swyddog Datblygu Bwrdd Gwasanaethau Lleol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Bodlondeb
Conwy
LL32 8DU

countyconversation@conwy.gov.uk

01492 574059

Gall cwsmeriaid Gwasanaeth BT Relay sydd â nam ar y clyw neu ar y lleferydd gysylltu ag unrhyw wasanaeth y Cyngor trwy ddeialu **18001** cyn y rhif y maent ei angen.

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.**


**Rydym yn hapus i ddarparu'r ddogfen hon mewn print bras, sain a braille.**


**Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ymateb i unrhyw ohebiaeth yn y Gymraeg ac ni fydd yn arwain at oedi.**

**Cysylltwch â'r Swyddog Datblygu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus am ragor o wybodaeth**


# Atodiad A – Monitro ar gyfer Llais y Sir (Haf 2016)


**Y pynciau oedd pobl eisiau siarad amdanynt -**




## Ystod oedran yr ymatebwyr -








## Ardaloedd Cymunedol yr ymatebwyr (ardaloedd mwyaf cyffredin) -

### Conwy




### Sir Ddinbych



# **Atodiad B –** Sut mae ein Blaenoriaethau Llesiant yn cyfrannu at ofynion y Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

<table>
<tr><th>Blaenoriaeth Llesiant</th><th>Lle mae'n cyfrannu i'r 7 Nodau Lles?</th><th>Lle mae'n cysylltu i'r pynciau a nodwyd yn yr Asesiad Llesiant?</th><th colspan="2">Sut y mae'r Flaenoriaeth Llesiant yn cyfrannu i'r 5 ffordd o weithio?</th></tr>
<tr><td rowspan="5">Pobl: Hybu lles meddyliol da ar gyfer pob oed</td><td rowspan="2">Cymru iachach</td><td rowspan="5">Pwnc 1 - Rhoi'r 'dechrau gorau' i bob plentyn<br>Pwnc 3 - Heneiddio'n Dda<br>Pwnc 5 - Byw mewn unigedd a mynediad at wasanaethau<br>Pwnc 6 - Gwirfoddoli<br>Pwnc 9 - Pobl yn gwneud dewisiadau iach ar gyfer eu ffordd o fyw<br>Pwnc 10 – Mynd i'r afael â Gordewdra<br>Pwnc 11 - Cefnogi rhai gydag iechyd meddwl gwael<br>Pwnc 12 – Pwysau cynyddol ar iechyd a gofal cymdeithasol<br>Pwnc 16 - Cyflawniadau mewn ysgolion a datblygiad cymdeithasol ehangach / sgiliau cyflogaeth / sgiliau byw</td><td>Atal</td><td>Gwella ymyrraeth gynnar ac atal yn rhoi cyfle gwell i wasanaethau i ddarparu gofal cynharach ac o ansawdd uwch i'r rheiny sydd ei angen.</td></tr>
<tr><td>Hirdymor</td><td>Lles meddyliol gwell yn golygu manteision arwyddocaol ar gyfer iechyd ac ansawdd bywyd ar gyfer unigolion a chymunedau a gallai arwain at ostyngiad yn y galw a'r defnydd o wasanaethau cynnal yn yr hirdymor.</td></tr>
<tr><td>Cymru fwy cyfartal</td><td>Integredig</td><td>Mae iechyd meddwl gwael wedi cael ei adrodd fel problem cynyddol mewn nifer o feysydd o waith sector cyhoeddus (fel cyflwyniadau digartrefedd, achosion o gam-drin domestig, achosion o gamddefnyddio sylweddau (gan gynnwys alcohol) adroddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol, delio â sgiliau rhianta gwael, risg gynyddol o achosion tân a chefnogi pobl i waith).</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Cymru o gymunedau cydlynol</td><td>Cydweithio</td><td>Oherwydd bod iechyd meddwl gwael yn effeithio ar ystod eang o ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus, mae angen dulliau traws-asiantaethol i gynorthwyo'r rhai gydag iechyd meddwl gwael. Yn benodol byddai dull cydlynol yn gymorth i atal pobl rhag disgyn drwy'r bylchau cefnogi sy'n gallu bodoli rhwng y pwyntiau sbardun ar gyfer gwahanol lefelau neu fathau o gefnogaeth.</td></tr>
<tr><td>Cysylltiedig</td><td>Bydd yn hanfodol i ymrwymo, cymryd rhan, addysgu a gweithio gydag asiantaethau ac unigolion eraill i wella lles meddyliol – gan gynnwys pobl ifanc, pobl hŷn, rhieni a theuluoedd.</td></tr>
<tr><th colspan="5">Cysylltiadau â Blaenoriaethau Corfforaethol partneriaid</th></tr>
<tr><td colspan="5">GIG Cymru NHS Wales – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board; Conwy – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy County Borough Council; Gogledd Cymru North Wales; GIG Cymru NHS Wales – Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales; Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council; Llywodraeth Cymru Welsh Government</td></tr>
<tr><th colspan="5">Oes unrhyw waith eisoes yn cael ei gwneud ar y flaenoriaeth yn rhywle arall (gan gynnwys gwaith partneriaeth/cydweithio)?</th></tr>
<tr><td colspan="5">Mae gwaith yn barhaus ar y cynnig hwn gyda Chydweithio â Gwasanaeth Gwella Lles a Gofal Cymdeithasol Gogledd Cymru trwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae strategaeth Iechyd Meddwl rhanbarthol hefyd.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th>Blaenoriaeth Llesiant</th><th>Lle mae'n cyfrannu i'r 7 Nodau Llesiant?</th><th>Lle mae'n cysylltu i'r pynciau a nodwyd yn yr Asesiad Llesiant?</th><th colspan="2">Sut y mae'r Flaenoriaeth Llesiant yn cyfrannu i'r 5 ffordd o weithio?</th></tr>
<tr><td rowspan="5">Cymuned:<br>Cefnogi Ymrymuso'r Gymuned</td><td>Cymru lewyrchus</td><td rowspan="5">Pwnc 2 - Lleihau nifer y bobl ifanc sy'n mudo allan a gweld pobl ifanc fel asedau<br>Pwnc 5 - Byw mewn unigedd a mynediad at wasanaethau<br>Pwnc 6 - Gwirfoddoli<br>Pwnc 17 – Gwella sgiliau ar gyfer cyflogaeth<br>Pwnc 27 - Darparu tai, gan gynnwys tai fforddiadwy<br>Pwnc 32 - Twf technoleg newydd<br>Pwnc 33 - Cydraddoldeb ac amrywiaeth / cydlyniant cymunedol<br>Pwnc 35 – Diwylliant sy'n ffynnu</td><td>Atal</td><td>Bydd yn cefnogi cymunedau i fod yn fwy cadarn a gyda'r gallu i ddatblygu eu hardal leol fel bo'r angen, ac ar yr un pryd yn atal eithrio cymdeithasol a darnio cymunedol.</td></tr>
<tr><td>Cymru wydn</td><td>Hirdymor</td><td>Ymateb i'r newid parhaus mewn cymunedau.</td></tr>
<tr><td>Cymru iachach</td><td>Integredig</td><td>Canolbwyntio ar gymunedau yn cyflwyno cysylltiadau rhwng iechyd, cymdeithas, diwylliant a lles economaidd ac amgylcheddol.</td></tr>
<tr><td>Cymru fwy cyfartal</td><td>Cydweithio</td><td>Angen dull o gydweithio gan holl bartneriaid BGC.</td></tr>
<tr><td>Cymru o gymunedau cydlynol</td><td>Cysylltiedig</td><td>Mae'n hanfodol i gynnwys, ymrwymo a gweithio gyda phobl a chymunedau wrth ddatblygu ardaloedd lleol.</td></tr>
<tr><td colspan="5">Cysylltiadau â Blaenoriaethau Corfforaethol partneriaid</td></tr>
<tr><td colspan="5">GIG Cymru NHS Wales – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board; Conwy – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy County Borough Council; GIG Cymru NHS Wales – Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales; Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council; Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales; Llywodraeth Cymru Welsh Government</td></tr>
<tr><td colspan="5">Oes unrhyw waith eisoes yn cael ei gwneud ar y flaenoriaeth yn rhywle arall (gan gynnwys gwaith partneriaeth/cydweithio)?</td></tr>
<tr><td colspan="5">Gwaith yn cael ei wneud trwy ddatblygu 'Cynlluniau Lleoedd' o fewn y ddwy awdurdod lleol – mae'r dogfennau cynllunio wedi'u paratoi a'u harwain gan gymunedau fel bod preswylwyr yn cael mwy o lais ar ddatblygiadau o fewn eu hardaloedd lleol. Mae Cynlluniau Lleoedd Lleol angen cydymffurfio â Chynllun Datblygu Lleol (CDLl) y Cyngor sydd yn rheoli cynllunio ledled y sir. Rhaid iddynt gyfrannu at anghenion cymunedol a chaniatáu i wneud prosiectau o "berchnogaeth" lleol ac sydd o fudd.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th>Blaenoriaeth Llesiant</th><th>Lle mae’n cyfrannu i’r 7 Nodau Llesiant?</th><th>Lle mae’n cysylltu i’r pynciau a nodwyd yn yr Asesiad Llesiant?</th><th colspan="2">Sut y mae’r Flaenoriaeth Llesiant yn cyfrannu i’r 5 ffordd o weithio?</th></tr>
<tr><td rowspan="5">Lle: Cryfhau’r Amgylchedd</td><td>Cymru wydn</td><td rowspan="5">Pwnc 22 - Diogelu'r amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth a chreu gwydnwch<br>Pwnc 24 - Newid hinsawdd a lleihau allyriadau carbon<br>Pwnc 25 – Diogelwch rhag llifogydd</td><td>Atal</td><td>Cymunedau neu ardaloedd gyda gwell cefnogaeth i ddelio â newid hinsawdd yn y dyfodol.</td></tr>
<tr><td>Cymru iachach</td><td>Hirdymor</td><td>Penderfyniadau a chamau gweithredu wedi eu cymryd rŵan yn cael effaith hirdymor ar yr amgylchedd a’r gymdeithas.</td></tr>
<tr><td>Cymru fwy cyfartal</td><td>Integredig</td><td>Mae’r agenda amgylcheddol y hanfodol ar draws yr amcanion lles a nodwyd gan nifer o bartneriaid BGC.</td></tr>
<tr><td>Cymru o gymunedau cydlynol</td><td>Cydweithio</td><td>Bydd angen i'r holl bartneriaid gydweithio yng nghyd-ddylunio'r pecynnau gwybodaeth ac ymrwymiad ac yn y tymor hir i ddatblygu unrhyw brosiectau yn y dalgylch lleol.</td></tr>
<tr><td>Cymru sydd â chyfrifoldeb byd-eang</td><td>Cysylltiedig</td><td>Mae’n hanfodol i gynnwys ac ymrwymo pobl a chymunedau wrth lunio’r cynlluniau cymunedol ac i addysgu cymunedau a’u hunigolion ar newid hinsawdd a beth y mae hynny’n ei olygu ar gyfer eu cymuned.</td></tr>
<tr><th colspan="5">Cysylltiadau â Blaenoriaethau Corfforaethol partneriaid</th></tr>
<tr><td colspan="5">Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales<br>Conwy Cyngor Bwrdeistref Sirol County Borough Council<br>Llywodraeth Cymru Welsh Government<br>Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council</td></tr>
<tr><th colspan="5">Oes unrhyw waith eisoes yn cael ei gwneud ar y flaenoriaeth yn rhywle arall (gan gynnwys gwaith partneriaeth/cydweithio)?</th></tr>
<tr><td colspan="5">Dim.</td></tr>
</table>

# Atodiad C – Tirwedd Partneriaeth (diagram gweithiol o bartneriaethau strategol)

